Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# PLANT AC OEDOLION MEWN PERYG

# CANLLAWIAU A PHECYNNAU CYMORTH AR GYFER ESGEULUSTOD



Wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd Rhagfyr 2022

Is-grŵp Protocolau a Gweithdrefnau

Dyddiad Adolygu Rhagfyr 2025

**Cynnwys** **Rhif Tud**


| Cynnwys | Rhif Tud |
|---|---|
| Cyflwyniad a Diben | 3 |
| Canllawiau a Phecyn Cymorth – Plant | 4 |
| Canllawiau a Phecyn Cymorth – Oedolion | 39 |

## Cyflwyniad

O ran cyd-destun rhoi gofal a diogelu, mae *Esgeulustod* yn ffurf o gamdriniaeth pan fydd rhywun mewn sefyllfa o gyfrifoldeb a/neu awdurdod ar gyfer gofalu am berson na sydd yn medru diwallu anghenion ei hun o safbwynt gofal a diogelu, ond mae'r person/awdurdod yn methu gwneud hyn. Gyda phlant o dan 18 mlwydd oed, mae hyn fel arfer yn rhiant neu'n Warcheidwad, ond gydag oedolion sydd yn wynebu Risg neu'n meddu ar anghenion Gofal a Chymorth, mae hyn yn medru bod yn ofalwr, yn aelod teulu neu'n weithiwr proffesiynol.

Tra y caiff ei gydnabod fod Esgeulustod yn ddigwyddiad un-tro, sydd yn medru bod yn fwriadol neu'n hepgor gwneud rhywbeth, mae'r effaith gronnol o esgeulustod parhaus ar anghenion corfforol ac emosiynol yn medru cael effaith hirdymor ar eu hiechyd corfforol, lles meddyliol, y gallu i rianta eu hunain a rheoli eu perthynas ag eraill yn y dyfodol.

Mae'n amlwg fod yna lwybr proffesiynol gwahanol ar gyfer ymarferwyr sydd yn gweithio ag oedolion gydag anghenion gofal a chymorth, o'u cymharu gyda'r rhai sydd yn gweithio gyda phlant a theuluoedd. Mae materion sydd yn ymwneud gydag awtonomi personol, galluedd meddyliol a hunanbenderfyniaeth angen eu hystyried. Fodd bynnag, pan yn ystyried materion o bryder gydag unigolion, rydym yn dod yn ymwybodol o'r teulu sydd o'u cwmpas. Mae'r ddogfen hon yn cynnig cyfarwyddyd am y llwybrau ar gyfer Oedolion a Phlant sydd yn medru cefnogi ymarferwyr i ddeall materion sydd yn ymwneud gydag *Esgeulustod* yn well ar gyfer yr unigolion sydd yn gweithio gyda hwy, ond hefyd ar gyfer y teuluoedd sydd o'u cwmpas.

## Pwrpas

Fel categori ar gyfer camdriniaeth, mae *Esgeulustod* yn medru cael ei ddehongli mewn ffyrdd gwahanol a'n ddibynnol ar bersbectif proffesiynol a gwerthoedd personol. Felly, mae'r canllaw aml-asiantaeth yma ar gyfer ymarferwyr sydd yn dod i gysylltiad gyda phlant ac oedolion. Nod y canllaw hwn yw sefydlu dealltwriaeth gyffredin a throthwy cyffredin ar gyfer ymyrryd mewn achosion pan fydd esgeuluso plant ac oedolion yn destun pryder. At ddibenion y ddogfen hon, mae plentyn yn berson o dan 18 mlwydd oed ac mae oedolyn yn berson dros 18 mlwydd oed.

Mae'r canllaw yn ceisio amlygu rhai o'r trafferthion sydd yn cael eu profi pan yn gweithio i fynd i'r afael gydag esgeulustod ac yn awgrymu ffyrdd i'w hosgoi neu'u datrys. Nid oes unrhyw ganllaw yn medru cynnig atebion i bob math o amgylchiadau neu drafferthion.

## Canllaw a Phecyn Cymorth i Blant

Prin iawn y mae esgeuluso plant yn weithred fwriadol o greulondeb; fodd bynnag, mae yna achlysuron pan fydd esgeulustod yn weithred fwriadol gan riant. Yn fwy aml, mae esgeulustod yn cael ei ddiffinio fel diffyg gofal gan ofalwyr y plentyn, pan fydd rhieni, am nifer o resymau gwahanol, yn methu diwallu anghenion eu plant neu'u plentyn yn gyson.

Mae'r mathau canlynol o esgeulustod wedi eu diffinio fel;

- **Esgeulustod meddygol** – lle y mae gofalwyr yn diystyru neu'n gwadu salwch neu anghenion iechyd y plentyn, neu'n methu rhoi meddyginiaeth neu driniaethau. Mae hyn yn cynnwys esgeuluso holl agweddau o ofal iechyd gan gynnwys elfennau deintyddol, llygaid, lleferydd a therapi iaith a ffisiotherapi.

- **Esgeulustod maethegol -** mae hyn fel arfer yn gysylltiedig gyda bwyd annigonol ar gyfer tyfu'n arferol ac mae hyn yn arwain at "fethu ffynnu". Yn fwy o broblem erbyn hyn, mae esgeulustod maethegol yn medru deillio o ddeiet afiach a diffyg cadw'n heini, sydd yn medru arwain at orewdra, a'n medru cynyddu'r risg o ran iechyd pan eu bod yn oedolion.

- **Esgeulustod emosiynol** - mae esgeulustod emosiynol yn cael ei ddiffinio fel patrwm perthynas lle y mae anghenion emosiynol yn cael eu diystyru'n barhaus.... Mae esgeulustod emosiynol yn medru cael canlyniadau difäol, fel methu ffynnu, oedi o ran eich datblygiad, gorfywiogrwydd, ymosodedd, iselder, ymdeimlad isel o hunanwerth, yn rhedeg i ffwrdd o'ch cartref, camddefnyddio sylweddau ac ystod o anhwylderau emosiynol eraill. Gweler - Family function and dysfunction Stephen Ludwig, Anthony Rostain, in Developmental-Behavioural Paediatrics (Pedwerydd Rhifyn), 2009

- **Esgeulustod addysgol –** mae hyn yn cynnwys gofalwyr yn methu cydymffurfio gyda datganiadau'r wladwriaeth, ond mae hefyd yn cynnwys yr agweddau ehangach o addysg fel darparu awyrgylch sydd yn ysgogi; yn dangos diddordeb yn addysg y plentyn a'n cefnogi eu dysgu gan sicrhau bod unrhyw anghenion addysgol arbenigol yn cael eu diwallu.

- **Esgeulustod corfforol –** mae hyn yn cyfeirio at gyflwr brwnt y cartref, diffyg hylendid, diffyg gwres, celfi a dillad gwely sydd yn annigonol a/neu wedi torri. Mae'n medru cynnwys diffyg dillad neu ddillad annigonol sydd yn golygu bod plentyn yn cael ei ystyried yn wahanol i'w gyfoedion a bod hyn yn arwain at arwahanrwydd neu fwlio. Mae hefyd yn cyfeirio at ddiffyg diogelwch yn y cartref, gweld pobl yn defnyddio sylweddau, diffyg mesurau diogelwch o flaen y tân, gwifrau trydan heb eu cuddio a socedi.

- **Methu Goruchwylio a Chynnig Canllawiau -** mae hyn yn cyfeirio at y gofalwr yn methu darparu'r lefel o gyfarwyddyd a goruchwyliaeth sydd angen er mwyn sicrhau bod y plentyn yn ddiogel mewn modd corfforol ac wedi ei amddiffyn rhag niwed.

## Esgeulustod Cronnol

*Mae'n bwysig edrych y tu hwnt i ddigwyddiadau sengl.* Mae niwed cronnol yn ganlyniad i sawl achos o gamdriniaeth neu esgeulustod neu bractis gwael. Mae niwed cronnol yn cyfeirio at effeithiau'r patrwm o amgylchiadau ym mywyd person a fydd yn effeithio ar ymdeimlad o ddiogelwch, sefydlogrwydd, a lles' (Bromfield and Millar 2007).

Mae ymchwil a dealltwriaeth o ddatblygiad plant (gan gynnwys datblygiad ymenyddol yn gynnar), trawma a'r theori ymlyniad, wedi llywio ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae niwed cronnol yn effeithio ar blant

Mae'r term **'straen gwenwynig' wedi ei ddefnyddio gan ymchwilwyr** er mwyn disgrifio systemau rheoli straen yn gorfod delio gyda straen parhaus, heb unrhyw gymorth. Mae'r straen yn ysgogi newidiadau niwrocemegol er mwyn medru ymdopi gydag amgylchiadau neu ddigwyddiad sy'n achosi straen. Mae straen parhaus yn ysgogi newidiadau niwrocemegol sydd yn medru aflonyddu ar seilwaith yr ymennydd a rheoli straen, gan effeithio yn y pendraw ar ddatblygiad y plentyn. (Shonkoff and Phillips, 2001).

Mae esgeulustod emosiynol yn debyg i gam-drin emosiynol gan ei fod yn effeithio ar yr **aer y mae'r plentyn yn anadlu,** a'r hinsawdd y maent yn byw ynddi, yn hytrach na bod yn ddigwyddiadau un-tro neu'n gyfres o ddigwyddiadau. Mae esgeulustod emosiynol a chamdriniaeth emosiynol yn dod yn rhywbeth cyffredin i'r plentyn fel '**cefndir' parhaus** lle nad oes modd i ni sylwi ar hyn tan fod rhywbeth penodol yn digwydd. Mae effaith ddyddiol y math yma o brofiadau yn medru bod yn ddirfawr a'n esbonyddol ac yn effeithio ar ymdeimlad plentyn o ddiogelwch, sicrwydd a lles (Bromfield a Miller 2007).

Dylid ystyried bod:

- Profiadau adweithiol yn medru crynhoi a pharhau i mewn i'w bywydau fel oedolion.
- Mae rhieni nifer o blant sydd wedi eu hesgeuluso hefyd yn dioddef o effeithiau niwed cronnol.
- Bydd casgliad o ffactorau hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd o blentyn yn dioddef esgeulustod.

Yng Nghymru, mae llawer o ffocws wedi bod ar fynd i'r afael gyda Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE's). Mae profiad yn dangos bod plant sydd yn profi plentyndod llawn straen ac o safon isel yn fwy tebygol o ddatblygu ymddygiad sydd yn niweidio eu hiechyd a'u bod yn wrthgymdeithasol, yn fwy tebygol o berfformio'n

wael mewn ysgolion, yn fwy tebygol o droseddu ac yn fwy tebygol o fod yn aelodau llai cynhyrchiol o gymdeithas (Iechyd Cyhoeddus Cymru 2019).

Mae Diffiniad Howarth o Esgeulustod yn cynnwys;

- Methu cwblhau'r tasgau rhianta sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod modd cwrdd â gofynion datblygol y plentyn
- Dylid ystyried oedran, rhywedd, diwylliant, credoau crefyddol y plentyn unigol
- Efallai bod methiant yn gysylltiedig gyda materion rhianta. Mae hyn wedi digwydd er bod adnoddau rhesymol ar gael.
- Tra bod yr esgeulustod yn barhaus, mae digwyddiadau un-tro ac esgeulustod episodig yn medru effeithio ar y plentyn (Howarth, 2007)

## Esgeulustod Episodig

Mae esgeulustod episodig yn ddigwyddiad un-tro, achlysurol neu fel arfer yn anfynych. Mae digwyddiadau episodig ac un-tro yn ddigwyddiadau sydd yn medru digwydd pan fydd yna argyfwng teulu neu os yw gofalwr yn camddefnyddio sylweddau. Mae'r pwynt pan fydd hyn yn digwydd dro ar ôl tro, hyd yn oed mân-achosion, yn gyfystyr gydag esgeulustod cronig yn berthnasol yma oherwydd mae'n medru dynodi diffyg goruchwyliaeth barhaus (Stevenson, 1998).

## Adnabod Esgeulustod

Y cam cyntaf ar gyfer ymarferwyr sydd yn gweithio gydag esgeulustod yw adnabod y plant neu'r oedolion sydd yn wynebu risg a bod ymarferwyr yn medru mynegi'r dystiolaeth sydd yn sylfaen ar gyfer hyn. Mae cronoleg aml-asiantaeth yn medru bod yn allweddol wrth helpu adnabod yr esgeulustod cronnol.

Efallai bod yna bryderon wedi eu mynegi yn sgil digwyddiad un-tro, pryder dros newid mewn ymddygiad neu sut y mae plentyn neu oedolyn yn edrych, neu efallai bod pryderon wedi bod yn cael eu mynegi ers tro byd.

Yn fwy nag unrhyw ffurf arall o gamdriniaeth, mae esgeulustod yn aml yn ddibynnol ar sefydlu'r pwysigrwydd o gasglu darnau bach, na sy'n ddramatig o wybodaeth ffeithiol sydd, pan yn cael ei gasglu, yn cyflwyno darlun cyffredinol o blentyn sydd yn cael ei esgeuluso.

Mae'r Fframwaith Asesu yn darparu dull penodol o edrych am rai o'r arwyddion a'r dangosyddion o esgeulustod. Mae'n medru trefnu'r ymarferydd i drefnu gwybodaeth, dadansoddi ffactorau risg, casglu a rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau penodol a darparu rhesymeg ar gyfer yr hyn y mae'r asiantaeth yn gwneud yn y pendraw am y pryderon.

Esiamplau arferol a dangosyddion posib o esgeulustod sydd yn effeithio ar blant ac oedolion:

- Methu cynorthwyo gyda hylendid personol gan gynnwys hylendid deintyddol neu ddarpariaeth bwyd, lle i aros, dillad, edrych yn flêr
- Methu darparu ymyriadau meddygol am ofynion corfforol ac iechyd meddwl (nid yw hyn yn cynnwys pan fydd unigolyn yn gwrthod triniaeth).
- Methu diogelu rhag peryglon iechyd a diogelwch, diffyg goruchwyliaeth yn barhaus, naill ai yn y cartref neu yn ystod gweithgareddau sydd yn medru bod yn beryglus iddynt, eu cyfyngu i un ystafell.
- Diffyg gofal personol a/neu ddiffyg wrth reoli ymataliaeth.
- Diffyg maethiad a diffyg hylif.
- Cyfyngu neu atal cyswllt cymdeithasol gyda ffrindiau neu berthnasau.
- Atal mynediad at wasanaethau e.e. addysg, lleoliadau cymdeithasol, lleoliadau yn y gymuned ayyb.
- Dirywiad cyffredinol mewn iechyd gan gynnwys iechyd y geg.
- Gormod o fwd neu beryglon iechyd yn yr amgylchedd byw.
- Amodau meddygol na sydd wedi eu trin.
- Brechau, briwiau, llau pen.
- Camddefnyddio meddyginiaeth.
- Methu sicrhau/hwyluso’r defnydd o ddyfeisiau prosthetigau, dannedd gosod, sbectol, dyfeisiau clyw neu gyfarpar llawfeddygol.
- Difrod pwysau.
- Amgylchedd cartref na sydd yn gyson gydag anghenion iechyd sylfaenol e.e. diffyg gwres, diffyg golau, dim digon o gelfi o’i gymharu gyda gweddill y tŷ, dillad gwely anaddas.
- Ymwybyddiaeth emosiynol y plentyn.
- Y gallu i reoleiddio emosiynau
- Cadw ar wahân o eraill a’n ymatal rhag cyfathrebu
- Ceisio plesio pobl yn ormodol.
- Chwilio am ymlyniad/sylw a’n ymddwyn mewn modd sydd yn ceisio tynnu sylw.

**Deall y Rhesymau am Esgeuluso Plant**

Mae’r rhan fwyaf o rieni yn gofalu am eu plant, yn aml mewn amgylchiadau anodd, gyda chefnogaeth eu teulu a ffrindiau os oes angen. Mae llawer o blant yn ein cymunedau yn wynebu’r risg bod eu hiechyd neu’u datblygiad yn cael eu hesgeuluso am nifer o resymau fel digartrefedd, diweithdra, tlodi neu drafferth benodol o fewn y teulu. Bydd rhai teuluoedd angen cefnogaeth gan wasanaethau o ganlyniad i drafferthion yn sicrhau bod eu plant yn derbyn gofal yn ddigonol. Bydd nifer bach o blant angen gwasanaethau cymorth cynhwysfawr yn sgil cymhlethdod neu

ddifrifoldeb yr amgylchiadau teuluol, er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn gofal digonol yn ystod eu plentyndod ac o bosib angen ymyrraeth hirdymor.

Mae llawer o blant yn ein cymunedau yn wynebu'r risg bod eu hiechyd neu'u datblygiad yn cael eu hesgeuluso am nifer o resymau fel digartrefedd, diweithdra, tlodi neu drafferth benodol o fewn y teulu. Mae ymchwil lleol a chenedlaethol h.y. mae ACEh wedi adnabod nifer o ffactorau sydd yn medru bod yn nodwedd ym mhroffil rhieni'r plant sydd yn wynebu risg o gael eu hesgeuluso.

- Perthynas dreisgar / cam-drin yn y cartref.
- Rhieni yn camddefnyddio alcohol a sylweddau.
- Rhieni ag anableddau dysgu.
- Rhieni neu ofalwr â salwch meddwl.
- Cyfnodau yng ngofal yr awdurdod lleol fel plant.
- Rhieni ag ymdeimlad isel o hunan-werth a hyder isel.
- Profiad truenus o dderbyn gofal rhiant.
- Problemau iechyd yn ystod beichiogrwydd, genedigaeth cyn diwedd y cyfnod llawn a babi sydd yn pwyso'n ysgafn.
- Profiad o golled neu brofedigaeth sylweddol.
- Arwahanrwydd a diffyg cymorth
- Rhieni yn eu harddegau.
- Rhieni yn y carchar ac yn troseddu.

Mae'r trafferthion sydd yn cael eu profi gan rieni o ganlyniad i nodweddion eraill yn medru bod yn gysylltiedig gydag esgeuluso plentyn, er enghraifft:

- Diffyg capasiti gan rieni i ddarparu gofal corfforol neu emosiynol
- Problemau'r rhieni mor feichus a llethol fel nad ydynt yn medru blaenoriaethu anghenion eu plant
- Diffyg dealltwriaeth neu sgiliau gan y rhieni i ddarparu awyrgylch gofal digonol.
- Profiad y rhieni o rianta mor druenus fel nad oes neb wedi gosod esiampl iddynt
- Nid oes rhwydweithiau cymorth yn eu lle er mwyn 'ategu' ar gyfer unrhyw annigonolrwydd yn y berthynas ofal gynradd.

### Perthnasau Rhieni a Phlant ac Esgeuluso

Mae'r berthynas rhwng plant a'u darparwyr gofal cynradd - fel arfer y fam neu'r tad - yn cael ei disgrifio fel y **theori ymlyniad.** Roedd Bowlby (1958) wedi diffinio ymlyniad fel 'cysylltiedigrwydd seicolegol parhaus rhwng bodau dynol' ac aeth i ddatgan mai'r hyn sydd yn pennu ymlyniad yw gofal ac ymatebolrwydd.

Pan fydd plant yn cael eu **hesgeuluso**, ac mae yna ddiffyg gofal ac ymatebolrwydd, nid oes perthynas dda ganddynt gyda'u rheini/y sawl sy'n rhoi gofal, ac mae hyn yn cael ei ddisgrifio fel ymlyniad truenus. Mae ymlyniad gwael yn medru effeithio'n sylweddol ar y berthynas ag eraill y maent yn medru eu cael drwy gydol eu bywydau (Howe 2011).

Mae ymyrraeth gynnar yn medru newid patrymau ymlyniad, lleihau'r niwed i blant a'n helpu hwy i ffurfio ymlyniadau positif fel oedolion.

**4 math o ymlyniad sydd wedi ei nodi:**

**Ymlyniadau diogel** - Mae'r sawl sydd yn rhoi'r gofal ar gael ac yn sensitif i arwyddion y plant, yn ymateb pan fydd y plentyn angen diogelwch, cysur a chymorth. Mae'r plentyn yn hyderus y bydd y sawl sydd yn rhoi'r gofal ar gael pan fydd angen. Mae teimladau cryf gan y plentyn o hunanhyder ac mae'n medru delio ag emosiynau a sefyllfaoedd ac yn gofyn am help gyda sefyllfaoedd yn ei fywyd.

**Ymlyniad Ansicr/Osgoi –** Yr unigolyn sy'n rhoi'r gofal yn methu sylwi ar arwyddion ac anghenion y plentyn, yn aml yn bellennig, yn ddig a'n orbryderus. Nid yw'r plentyn yn chwilio am gyswllt corfforol ond yn ochelgar ac nid oes ots ganddynt pwy y maent yn rhyngweithio gyda hwy.

**Ymlyniad Ansicr/Amwys –** Mae'r unigolyn sy'n rhoi'r gofal yn anghyson ac ansensitif. Mae'r plentyn yn chwilio am gyswllt ond nid yw'n derbyn hyn, yn gwrthod tawelu, yn mynnu sylw ond hefyd yn ddig wrth wrthod y sylw.

**Ymlyniad Anhrefnus** – Mae'r unigolyn sy'n rhoi'r gofal yn dreisgar ac yn ofnus ac nid yw ar gael yn emosiynol. Mae'r plentyn wedi cymhlethu ac yn anhrefnus ac yn cael trafferth rheoli mympwyon ac ymdeimlad o ddicter (Bowlby, Ainsworth 1950s a Kennedy a Kennedy 2004).

Mae'n bwysig cydnabod fod yna nifer o heriau ychwanegol sydd yn effeithio ar ffurfio ymlyniadau positif sydd yn benodol i'r plentyn. Mae enghraifft o hyn yn cynnwys pan fydd plentyn yn meddu ar anabledd difrifol neu salwch cronig sydd yn golygu cyfnod hir yn yr ysbyty.

## Penderfyniadau, Camau Nesaf ac Atgyfeiriadau

Mae'r Fframwaith ar gyfer Asesu yn medru darparu dull o weithio trefnus tuag at edrych am yr arwyddion a'r hyn sydd yn dynodi esgeulustod. Mae'n medru cynorthwyo'r ymarferydd i drefnu gwybodaeth, dadansoddi ffactorau risg, casglu a rhannu gwybodaeth ar draws yr asiantaethau perthnasol ynghyd â'n darparu rhesymeg ar gyfer yr hyn y mae'r asiantaeth yn penderfynu gwneud am y pryderon sydd wedi eu nodi.

Mae’r Fframwaith ar gyfer Asesu yn cynnig system ar gyfer casglu gwybodaeth sy’n ymwneud gyda’r tri phrif faes o fywyd teuluol. Y rhain yw:

- Anghenion datblygol y plentyn
- Capasiti rhianta
- Ffactorau teulu ac amgylcheddol.

Dylai ymarferwyr feddwl yn holistaidd ar draws y fframwaith gan wneud cysylltiadau rhwng yr elfennau er mwyn gweld sut mae un elfen yn dylanwadu ar un arall. Mae hyn yn medru bod mewn ffordd negatif neu bositif; mae’r ffordd y mae’r ffactorau yn rhyngweithio yn medru gwaethygu neu liniaru ein pryderon.



**Anghenion Datblygol y Plentyn**

Mae'r ffordd y mae plant yn cyflwyno eu hunain yn gorfforol, yn gymdeithasol, neu'n emosiynol, sut y maent yn perfformio yn yr ysgol a ph'un ai eu bod yn cwrdd â'r cerrig milltir o ran eu datblygiadau, yn medru cynnig darnau pwysig o wybodaeth i ymarferwyr am fywyd a phrofiad y plentyn a'r rhianta y mae'n derbyn.

Mae rhestrau o nodweddion ymddygiadol a chyflwyniadol yn medru cynnig yr hyn arwyddion a'r rhestrau gwirio o ran gofynion a nodweddion plant sydd yn dynodi eu bod yn cael eu hesgeuluso. Fodd bynnag, mae angen ystyried y rhain ar y cyd gyda'r ystyriaethau eraill, fel oedran y plentyn, ble maent o ran datblygiad, p'un ai bod anabledd ganddynt a pha mor hir y mae hyn wedi bod yn nodwedd o fywyd y plentyn.

O ran yr hyn sydd yn bwysig i ymarferwyr yw dealltwriaeth ymarferwyr o blant unigol drwy wrando ac arsylwi, ymgysylltu ac adeiladu perthynas gyda phlant a theuluoedd, fel ein bod yn medru deall a derbyn yr hyn y maent yn dweud wrthym. Rhaid i ni fedru meddwl o bersbectif plentyn ac ystyried ein pryderon proffesiynol o ran beth mae hyn yn golygu ar gyfer y plentyn hwn? Beth yw'r effaith arno a pha effaith y bydd hyn yn cael ar ei anghenion datblygol, nawr ac yn y dyfodol?

**Cynnal Ffocws ar y Plentyn**

**Good Practice Box 2: Maintaining a Focus on the Child**

- Children should be seen within their family unit and on their own.
- The child's views should be sought in relation to where they would be comfortable to meet with you.
- Children should be spoken to and observed to determine the level of attachment they have to their parents and siblings and other members of the family
- Consideration should be given to each child within the family. How are they different or similar?
- Are any of the children in this family more resilient than others to the care they are receiving and if so how? And why?
- Describe each child in terms of appearance and personality
- List the strengths and positives of the relationships within the family
- List any injuries the child has had chronologically including injuries that have been explained by the parent or carer
- List your concerns about the child's developmental needs using the dimensions within the Framework for Assessment.
- Consider and plan how you will discuss your concerns with the child's parents
- Ask the parents to describe their children individually and talk about what they like about them. What are their individual personalities? What do they like doing? This exercise can be enlightening in terms of finding out what parents know about their children, how they feel about them and how good their attachments are.

Mae arwyddion a dangosyddion sydd yn medru cael eu hystyried fel nodweddion ymddygiadol yn cynnwys:

- Diffyg consyrn am safonau'r aelwyd, sydd dipyn is na'r hyn sydd i'w weld ymhlith teuluoedd eraill, a'n debyg i'r hyn sydd yn cael ei roi i anifeiliaid.
- Methu cadw at apwyntiadau Iechyd a Deintyddol ar gyfer plant a hwy eu hunain
- Methu ysgogi neu ryngweithio neu ddangos hiwmor gyda'r plant.
- Trafferth yn arfer disgyblaeth briodol a rheolaeth dros blant.
- Methu deall pwy y dylid ymddiried gyda'r plant
- Trafferthion gydag ymlyniad a bondio.
- Trafferth yn rhoi anghenion y plant yn gyntaf.
- Rhieni ag ymdeimlad o hunanwerth.
- Perthynas druenus neu ddifäol gyda theulu estynedig neu'r gymuned leol.
- Rhieni yn dweud wrthym nad ydynt yn medru ymdopi.

Efallai bod yna broblemau eraill ar  waith fel iechyd meddwl gwael neu drafferthion dysgu sydd yn effeithio ar eu gallu rhianta, naill ai dros dro neu'n fwy parhaol - er enghraifft, efallai nad yw anghenion iechyd y rhiant yn cael eu diwallu neu unrhyw anghenion eraill, camddefnyddio sylweddau neu effaith cam-drin domestig.

Wrth adnabod esgeulustod, efallai y bydd ymarferwyr hefyd angen ystyried sut y mae rhieni yn rhyngweithio gyda gwasanaethau cymorth, p'un ai eu bod yn agored i gyngor a chanllawiau a'n gweithredu ar hyn, neu a oes yna ddiffyg ysgogiad neu hyd yn oed ddicter. Os oes yna ymdrechion i gynnig cymorth wedi bod yn y gorffennol, pam na lwyddodd hyn? Beth fyddai wedi bod yn fwy defnyddiol? Beth yw eich barn chi? Mae cronoleg aml-asiantaeth yn medru hwyluso'r gwaith o adnabod patrymau o fethu ymgysylltu a phryderon hanesyddol.

Mae ymddygiad rhieni sydd yn ddifrifol wael  yn cael ei nodweddu gan ofal sydd yn anghyson ac nid yw'n barhaus. Efallai bod yna gyfnodau byr pan fydd gofal yn gwella rhywfaint. Mae hyn yn medru codi gobeithion y sawl sydd yn darparu'r gwasanaethau hynny ond mae'r fath welliannau  yn rhai byrhoedlog ac yn  medru creu ymdeimlad o anobaith ymhlith y rhai sydd yn cefnogi'r teulu. Dyma pam y mae cronoleg dda a dealltwriaeth dda o hanes y teulu, gan gynnwys ymyriadau blaenorol gan y gwasanaethau, yn hanfodol ar gyfer unrhyw asesiad o esgeulustod (ewch i ddarllen y Multi Agency Guidance for Working with Hostile and Uncooperative Parents).

### Ffactorau Teuluol ac Amgylcheddol

Mae ymarferwyr angen ystyried y canlynol yn y cyd-destun hwn wrth weithio gydag esgeulustod:

- Profiadau plentyndod y rheini
- Perthynas gyda'r teulu ehangach
- Hanes o sut y mae'r teulu yn gweithredu h.y. a oes yna ymyrraeth wedi bod cyn hyn, a oedd hyn am yr un rheswm, beth oedd canlyniadau ymyrryd ar y pwynt hwnnw, a oedd y rhieni wedi ymgysylltu ayyb.
- Incwm.
- Tai.
- Integreiddio cymdeithasol.
- Mynediad at adnoddau e.e. adnoddau cymunedol da yn yr ardal sydd yn hygyrch i'r teulu ac sydd yn cael eu defnyddio.
- Sut y mae'r ffactorau uchod yn effeithio ar y plentyn a sut y mae'r ffactorau yn ymwneud gyda gofynion datblygu'r plentyn a'r capasiti rhianta?

## Gweithio'n Sensitif ag Amrywiaeth

Mae pob un plentyn, a'r teuluoedd lle y maent yn byw, yn unigryw. Mae eu cefndir o ran hil a diwylliant, crefydd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw anabledd corfforol a/neu ddysgu angen ei ystyried fel rhan o'r asesiad. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn ymwybodol o'u gwerth personol a'r effaith y mae hyn yn ei gael wrth weithio gyda theuluoedd.

Mae llenyddiaeth yn dweud y dylid bod yn ofalus am ymatal rhag ymyrryd, a hynny rhag ofn eich bod yn ymddangos yn feirniadol. Mae esgeuluso plentyn byth yn medru cael ei esbonio neu gyfiawnhau fel rhywbeth sydd yn seiliedig ar wahaniaethau diwylliannol neu gredoau. Mae cynnig esboniadau diwylliannol ar gyfer rhianta treisgar neu sy'n esgeuluso wedi cael ei ddisgrifio fel 'cultural misattribution' gan yr Arglwydd Laming yn ei ymchwiliad i farwolaeth Victoria Climbie.

I rai plant, mae gwahaniaethu yn rhan o'u bywydau bob dydd. Ni ddylai ymatebion asiantaeth i blant adlewyrchu neu atgyfnerthu'r profiad o wahaniaethu - dylent fynd i'r afael gyda hyn Er enghraifft, mae'n hynod bwysig bod ymarferwyr yn defnyddio cyfieithwyr pan fydd angen a'u bod yn gwrando ar y plentyn a'u bod yn medru mynegi'u barn yn eu hiaith gyntaf.

## Camgymeriadau cyffredin wrth weithio ag esgeulustod

Pan yn gweithio gydag esgeulustod, dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r problemau neu'r rhwystrau canlynol sydd yn medru atal asesiadau ac ymyriadau effeithiol.

- Methu arsylwi neu wrando ar blant a'n gweld y byd drwy eu llygaid hwy
- Credu bod modd mynd i'r afael ag esgeulustod drwy fynd i'r afael gyda thlodi
- Methu cydnabod plant fel rhan o'r gymuned ehangach, ac efallai bod ymateb i'r plentyn sydd yn cael ei esgeuluso yn golygu ei fod yn dioddef arwahanrwydd cymdeithasol
- Derbyn barn gyffredinol am blant yn yr un teulu pan mae angen asesiadau unigol
- Credu bod rhianta yn rhywbeth naturiol a rhaid bod ymddygiad y rhieni yn gywir
- Pryder ynglŷn â gorfodi gwerthoedd proffesiynol a dosbarth ar eraill
- Gwneud rhagdybiaethau am hil a diwylliant sydd yn methu cydnabod y risgiau
- Ystyried bod esgeulustod yn anochel gan nad yw rhieni yn medru newid eu ffordd o fyw/ymddygiad
- Credu bod pob dim yn iawn ac nid oes ots am ddiffyg gofal os yw'r plant yn ymddangos yn hapus
- Diffyg dealltwriaeth o ganlyniadau hirdymor esgeulustod.
- Glynu wrth y gred fod hawl gan oedolyn i arfer 'hunanbenderfyniaeth' sydd yn medru gwadu neu wrthdaro gyda hawliau a/neu fuddiannau'r plentyn.

- Methu gweithio gyda rhieni bregus sydd yn golygu bod anghenion plant yn cael eu gwadu.
- Y gred nad oes modd cynnig dim byd gwell i'r plant.
- Unwaith y mae gweithwyr proffesiynol yn meddu ar farn benodol am y plentyn a'r teulu, mae'n anodd i weithwyr wedyn i newid eu barn am y teulu. Mae hyn yn medru digwydd hyd yn oed os oes yna dystiolaeth amlwg o esgeulustod a niwed sylweddol.
- Mae achosion o esgeulustod yn medru cael eu cuddio gan gydymffurfiaeth ffug sydd yn ei gwneud hi'n anodd i ymarferwyr i adnabod y risgiau cronnol.
- Mae esgeulustod yn aml yn cael ei weld fel methiant y fam i ddarparu gofal, lle y mae ond ychydig o wybodaeth sydd ar gael am ddynion mewn teuluoedd sydd yn esgeuluso.

**Crynodeb a'r camau nesaf**

- Os oes yna bryderon am esgeulustod posib, edrych ar bob agwedd o'r Fframwaith ar gyfer Asesu gan nodi'r dystiolaeth a'r ffactorau risg yr ydych yn credu sydd yn dynodi bod plentyn yn cael ei esgeuluso.
- Cofnodwch eich pryderon gan fwrw golwg yn ôl ar nodiadau neu gofnodion eich asiantaeth.
- Yn ogystal â'ch pryderon, dylech nodi'r ffactorau amddiffynnol neu'r cryfderau, y teulu neu'r mudiadau sydd yn cefnogi.
- Ystyriwch y pryderon yng nghyd-destun llinell amser neu'r gronoleg. A yw'r hyn sydd yn achosi pryder yn 'discrete' (wedi ei gyfyngu o ran amser neu'n ymwneud gyda digwyddiad penodol) neu'n gronig o ran natur.
- Ystyriwch farn y plentyn/person ifanc a'r rhieni.
- Gweithiwch yn sensitif gydag amrywiaeth.
- Gwerthuswch y wybodaeth yma o ran y plentyn unigol a'i amgylchiadau ef/hi a'r rhai teuluol.
- Gwerthuswch y wybodaeth yma o ran yr effaith y mae hyn yn ei gael ar y plentyn, nawr a dros amser.
- Mae modd i chi oruchwylio er mwyn adlewyrchu yn gritigol ar yr amgylchiadau yn yr achos yma.
- Byddwch yn wyliadwrus o gydymffurfiaeth ffug (pan fydd teuluoedd ond yn cydymffurfio er mwyn cael gwared ar weithwyr proffesiynol). Eto, defnyddiwch oruchwyliaeth ar gyfer cymorth.
- Byddwch yn ofalus rhag bod yn rhy optimistaidd am allu rhieni i wneud newidiadau a'u cynnal.
- 'Syndrom dechrau eto' – mewn rhai achosion, mae ymarferwyr yn medru cael trafferth yn deall hanes sylweddol sydd yn rhan o achos ac mae yna dueddiad i 'ddechrau eto' gan ddiystyru'n llawn y patrymau sydd yn nodweddu'r gorffennol.

## PENDERFYNIADAU, CAMAU NESAF A'R DDYLETSWYDD I ADRODD I WASANAETHAU CYMDEITHASOL

Unwaith y mae pryderon am esgeulustod wedi eu nodi, yna mae'n rhaid i ymarferwyr i wneud penderfyniad am y lefel o ymyrraeth sydd angen (trothwy) a'r hynny dylai ddigwydd nesaf. Mae'r ymarferydd neu'r asiantaeth sydd wedi adnabod y pryderon yn gorfod gwerthuso difrifoldeb eu pryderon a phenderfynu ar yr ymateb priodol. Mae ymchwil yn dangos bod adnabod ac ymyrryd ynghynt mewn achosion o esgeulustod yn arwain at ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn hynod bwysig i'r grŵp oedran 0-3.

Roedd Jan Horwarth (2006) yn nodi fod pryder ynglŷn ag a ddylid atgyfeirio (dyletswydd i adrodd) plentyn sydd yn cael ei esgeuluso at y Gwasanaethau Cymdeithasol yn un cymhleth na sydd yn ddibynnol yn unig ar wybodaeth a thystiolaeth amgylchiadau'r plentyn, ond hefyd ar ffactorau personol a threfniadol hefyd. Mae hefyd yn ddibynnol ar grebwyll proffesiynol a fydd yn seiliedig ar eich dealltwriaeth, sgiliau a phrofiad.

Mae gwneud dyfarniad mewn adroddiadau yn medru achosi pryder i ymarferwyr a'n creu tensiwn rhwng asiantaethau. Mae adeiladu perthynas dda rhwng asiantaethau, datblygu dealltwriaeth o rôl a chapasiti pob un asiantaeth ac mae dealltwriaeth a rennir am drothwyau hefyd yn medru cynorthwyo. Mae medru mynegi eich pryderon drwy nodi'r arwyddion a'r dangosyddion, ffactorau risg a dealltwriaeth o effaith esgeulustod, hefyd yn mynd i helpu. Os ydych yn anhapus gyda'r ymateb yr ydych yn derbyn i atgyfeiriad, yna mae'n gyfrifoldeb proffesiynol arnoch i herio hyn. (Ewch i'r protocol Regional Multi-Agency Practice Guidance Resolving Professional Differences)

Mae'r penderfyniadau posib yn dilyn adnabod achosion o esgeulustod yn medru cynnwys:

- Siaradwch am eich pryderon gyda'r teulu a dylech barhau i gefnogi a monitro'r sefyllfa fel asiantaeth sengl
- Atgyfeiriwch at wasanaethau cymorth ychwanegol
- Adroddwch y plant sydd ag Anghenion Gofal a Chymorth i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant
- Adroddwch pryderon am Ddiogelu Plant i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant

Os ceir penderfyniad **na** ddylid adrodd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r asiantaethau sydd wedi chwarae rhan yn yr achos yn medru cytuno ar gynllun ar gyfer ymateb i'r pryderon neu mae modd cael mynediad iddynt at fwy o gymorth ychwanegol ar gyfer y teulu o'r adnoddau sydd ar gael yn lleol. Mae gwneud penderfyniad hefyd i beidio atgyfeirio yn medru bod yn ymateb priodol os oes yna deimlad bod modd gwneud newid er mwyn elwa'r plentyn a'r teulu, a lle bo'r risgiau sy'n wynebu'r plentyn yn medru cael eu rheoli. O fewn y sefyllfaoedd hyn, mae'n bwysig bod rhieni yn meddu ar lefel o ddealltwriaeth ac o dderbyn y pryderon proffesiynol a'r dyhead i weithio ag eraill er mwyn gwella pethau. Dylech gofnodi eich penderfyniadau yn eglur yn unol gyda pholisïau a systemau recordio'r asiantaeth.

Mae asiantaethau cymorth yn amrywio ar draws awdurdodau ac mae modd cael gwybodaeth bellach o gyfeirlyfr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn eich ardal.

Os yw teulu neu blentyn yn derbyn gwasanaethau sydd wedi eu targedu neu'r rhai ataliol o ganlyniad i bryderon am esgeulustod, mae'n hynod bwysig fod y cymorth yn cael ei gynllunio a'i adolygu'n bellach er mwyn ystyried unrhyw gynnydd. Dylai fod yna system dda ar gyfer cyswllt a chydlynu rhwng asiantaethau. Efallai ei fod yn syniad da fod y bobl sydd yn chwarae rhan ym mywyd y teulu e.e. Ymwelydd Iechyd, Athro, Plentyn, Gweithiwr Iechyd Meddwl ar gyfer Plant a'r Glasoed, gweithiwr Dechrau'n Deg, yn dod ynghyd i wneud hyn a dylid cynnwys y teulu yn y cyfarfod hwn.

## Canllaw arfer da ar gynllunio ac adolygu cymorth sydd yn Rhan 7 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Os caiff penderfyniad ei wneud i gynnig cymorth heb adrodd wrth Gwasanaethau Gwaith Cymdeithasol, yna dylech adolygu'r penderfyniad yma yn rheolaidd gyda'ch goruchwylydd neu'ch rheolwr llinell gan ystyried y canlynol:

- A yw'r cynllun yn gweithio a pha wahaniaeth y mae'n gwneud?
- Wedi gweld yr arwyddion, dangosyddion a'r ffactorau risg sydd wedi achosi'r pryder, a oes yna newid wedi bod?
- A yw'n bosib gwneud adroddiad i Wasanaethau Cymdeithasol i Blant am yr Anghenion Gofal a Chymorth?
- A oes yna risg o niwed sylweddol a bod y plentyn angen ei amddiffyn? Os felly, rhowch wybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yn syth.

Mae pryderon difrifol sy'n ymwneud gyda lles neu ddatblygiad plentyn angen eu codi bob tro gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant bob tro fel bod modd cynnal asesiad aml-asiantaeth er mwyn penderfynu a yw plentyn angen gofal a chymorth a pha wasanaethau sydd eu hangen.

Yn ogystal â'r wybodaeth ffeithiol am y plentyn a holl aelodau'r teulu, a'r rhesymau dros adrodd, bydd Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant angen gwybod:

- Pa dystiolaeth sydd yno o'r effaith ar iechyd, diogelwch a lles emosiynol y plant? (Defnyddiwch y pecyn cymorth er mwyn adnabod ffeithiau, barn, arsylwadau a risgiau. Gwahaniaethwch rhwng ffeithiau a barn. Rydych yn medru cynnwys gwybodaeth am drydydd parti ond mae angen i chi fod yn eglur am hyn).
- Teimladau a chrebwyll (defnyddiwch eich pecyn cymorth er mwyn cefnogi eich crebwyll proffesiynol)
- Beth sydd wedi digwydd i'ch annog i ystyried y ddyletswydd i adrodd?
- Pam ydych yn credu bod hyn wedi digwydd, beth yw'r achosion?

- Beth mae'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad, os yn weithiwr proffesiynol, wedi gwneud er mwyn gwella'r sefyllfa?
- A yw'r rhiant yn gwybod fod adroddiad yn cael ei wneud a pha fath o help sydd angen arnynt neu'u bod yn disgwyl?

**Dylai gweithwyr sydd yn adrodd i Wasanaethau Cymdeithasol i Blant ateb y cwestiynau uchod pan yn cwblhau'r ffurflen ar gyfer y ddyletswydd i adrodd.**

**Gwneud adroddiad i Wasanaethau Cymdeithasol i Blant – chwilio am ganiatâd rhieni**

Mae gweithwyr proffesiynol sydd yn rhoi gwybod i'r **Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant** am eu pryderon angen penderfynu a oes angen caniatâd y person sydd â chyfrifoldebau gofalu. Mae caniatâd yn cael ei ystyried yn y tabl isod.
Os ydych yn aneglur am y pryderon, peidiwch ag oedi rhag cyflwyno eich adroddiad. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i drafod unrhyw gymhlethdodau gyda:

- Eich rheolwr llinell/goruchwylydd
- Person sy'n arwain yr asiantaeth ar gyfer diogelu plant
- Hyb Diogelu Gwasanaethau Plant

Mae Esgeulustod gan Rieni sydd yn arwain at '**niwed sylweddol'** yn:

- **difrifol**
- **cyson/ episodig**
- **cronnol**
- **cronig neu'n aciwt**
- **gwrthod ymyrraeth**

Bydd angen ymdeimlad clir o sut y mae'r gweithredoedd yma o esgeuluso yn methu diwallu anghenion y plentyn a sut y mae hyn yn ei dro yn cysylltu gyda'r niwed sydd yn cael ei achosi. Bydd iechyd, lles a diogelwch angen eu hystyried ynghyd â'r niwed datblygiadol a fydd yn effeithio ar y plentyn yn y dyfodol. **Y mater allweddol yw bod esgeulustod yn medru achosi mwy o oedi o ran datblygiad lles emosiynol hirdymor a nam cyffredinol ac mae'n medru arwain at ffurfiau eraill o gam-drin.**

Ymhlith y teuluoedd hynny lle y mae yna esgeulustod, fel sydd yn digwydd mewn nifer o sefyllfaoedd cymhleth eraill, mae'n hawdd iawn colli golwg o'r plentyn yn sgil y ffaith bod anghenion y rhieni neu ffactorau eraill yn bwrw cysgod dros anghenion y plentyn. Nid oes modd gorbwysleisio'r pwysigrwydd o weld ac arsylwi'r plentyn mewn amgylchiadau cymhleth ac anodd. Cadwch ofyn y cwestiwn: Sut y byddai'n teimlo i fod yn blentyn yma, yn byw gyda'r rhieni/gofalwyr yn y cartref yma?

**Am fwy o wybodaeth am brosesau diogelu plant, ewch i Weithdrefnau Diogelu Cymru Wales Safeguarding Procedures**

## CYNLLUNIO, ADOLYGU A'R DEFNYDD O ORUCHWYLIAETH

Dylai cynlluniau aml-asiantaeth fod yn eu lle ar gyfer plant sydd yn cael eu hystyried yn anghenus neu'n fregus o ganlyniad i esgeulustod. Dylai cynllun fod yn ei le beth bynnag yw'r gwasanaeth neu'r ymyrraeth sydd yn cael ei gynnig a bod hyn yn ymyrraeth sengl neu'n ymyrraeth gan aml-asiantaeth. Dylid llunio'r cynllun gyda'r teulu, gan gynnwys y plentyn os yn bosib, ynghyd ag unrhyw asiantaethau eraill sydd yn chwarae rhan.
Dylai'r cynllun fanylu'r canlyniadau a ddeisyfir, y gwasanaethau a fydd yn cael eu cynnig i'r teulu, a'r newidiadau sydd eu hangen a'r amserlenni ar gyfer sicrhau'r newidiadau a ddeisyfir.

Wedi asesu'r meysydd lle y mae'r rhianta yn esgeuluso, mae'n hanfodol fod unrhyw waith dilynol wedi ei ffocysu a'n benodol. Dylai'r cynllun fod yn SMART:

- ***S****pecific*
- ***M****easurable*
- ***A****chievable*
- ***R****ealistic*
- ***T****imed*

Mae plant sydd yn cael eu hesgeuluso yn aml yn profi arwahanrwydd yn y gymuned, a hynny gan eu cyfoedion ac weithiau o fewn eu teuluoedd. Dylai cynlluniau ar gyfer plant ystyried ffyrdd lle y mae modd i blant chwarae rhan mewn gweithgareddau er mwyn lleihau profiad arwahanrwydd.

Mae plant sydd wedi eu hesgeuluso angen adeiladu dygnwch er mwyn lleihau'r risgiau. Mae modd adeiladu dygnwch drwy:

- Cysylltu plentyn gyda gwasanaethau hamdden neu gymunedol, er enghraifft, canolfannau chwarae.
- Cadarnhau a yw'r gweithgareddau o fewn yr ysgol y mae'r plentyn yn medru manteisio arnynt
- Cysylltu'r plentyn gydag oedolyn neu ffrind diogel sydd yn fodlon treulio amser yn gwneud gweithgareddau gyda'r plentyn.

Bydd y cynllun yn cael ei adolygu'n gyson. Bydd modd cynnal adolygiad os oes yna newid mewn amgylchiadau neu os oes yna ddigwyddiad yn awgrymu bod angen newid y cynllun mewn rhyw ffordd. Dylai rhieni, a'r plentyn os yn briodol, gael eu hannog i fynychu a chymryd rhan yn y broses adolygu.

Os yw plant ar y Gofrestr Diogelu Plant o ganlyniad i bryderon am esgeulustod, y cynllun fydd y cynllun Gofal a Chymorth  (Cynllun Diogelu Plant), a fydd yn cael ei adolygu gan y grŵp craidd a'i ddiweddaru fel sydd yn briodol.

Mae ystyriaethau eraill sydd yn bwysig wrth gynllunio ac adolygu gwasanaethau yn cynnwys;

- Meddwl yn greadigol o bersbectif sydd yn cael ei arwain gan anghenion ac yn manteisio ar gymorth a chefnogaeth ffurfiol ac anffurfiol.
- Os yn bosib, ceisiwch fynegi canlyniadau yn nhermau ymddygiad a chynnwys yn y cynllun sut y bydd y newidiadau yma yn helpu'r plentyn i ffynnu, datblygu a gwireddu ei botensial.
- Meddyliwch am yr anghenion dysgu / dulliau'r rhieni a'n sicrhau eu bod yn eglur am eich pryderon a'ch disgwyliadau chi ohonynt.
- Ystyriwch a yw'r gwasanaeth yr ydych yn cynnig yn mynd i ymrymuso'r teulu, neu a yw'n cyfrannu at ymdeimlad o anobaith?
- Meddyliwch yn benodol am sut y mae pob plentyn yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Gofal a Chymorth – a yw'r plentyn angen help a chymorth i wella eu hymdeimlad o hunan-werth, adeiladu dygnwch neu'n ymdopi ag unrhyw agwedd arall o'u bywydau.
- Ystyriwch unrhyw anghenion rhianta sydd dal heb eu diwallu ac a fydd yn tanseilio eu capasiti ar gyfer newid. Efallai y bydd angen cynnwys gwasanaethau i oedolion os yw hyn yn wir.
- Sicrhewch fod y plentyn yn chware rhan ac yn medru cyfrannu ei farn. Bydd angen sicrhau bod hyn yn briodol i'r oedran.
- Ceisiwch sicrhau bod y cynlluniau wedi eu cydlynu a'u cytuno ar draws gwasanaethau fel bod y teulu yn profi eglurder a chysondeb am y newidiadau sydd angen.
- Os ydynt yn ffugio cydymffurfiaeth, mae'n hanfodol deall a yw hyn yn rhywbeth y maent yn cael ei ysgogi i wneud neu a yw'n cael ei achosi gan gapasiti. Bydd y canllaw practis Rhanbarthol, *Working with Hostile and Uncooperative Parents/Carers* yn cynnwys strategaethau y mae modd i chi eu defnyddio er mwyn helpu gyda hyn. (Ewch i ddarllen y Regional Multi-Agency Guidance for Working with Hostile and Uncooperative Parents)
- Efallai y bydd angen asesiadau newydd os oes yna bryderon newydd neu barhaus am y plentyn.

### Pwrpas Goruchwylio

Mae goruchwyliaeth dda yn ganolog tuag at reoli a goruchwylio'r gwaith gyda theuluoedd pan fydd yna bryderon am blant yn cael eu hesgeuluso. Dylai'r broses oruchwylio sicrhau:

- Mae'r gweithiwr yn glir am ei rôl a'i gyfrifoldebau

- Mae ffocws yr ymyrraeth ar y plentyn drwy'r amser
- Mae'r cynllun yn adlewyrchu anghenion y plentyn a'r teulu.
- Dylid osgoi unrhyw oedi a phetruster.
- Dylid cefnogi'r practis.
- Dylid cynorthwyo gyda datblygiad proffesiynol.
- Yn rheoli pwysau llwyth gwaith.

**Mae angen i weithwyr proffesiynol i ddarllen polisi eu hasiantaeth gyflogi sydd yn ymwneud gyda goruchwylio/canllawiau i staff.**

Nid oes modd gorbwysleisio'r pwysigrwydd o oruchwylio mewn achosion o esgeulustod. Mae goruchwyliaeth effeithiol yn adnodd pwysig ar gyfer myfyrio, casglu gwybodaeth a chynnig cymorth a'r prosesau sydd yn cael eu harfer gan ymarferwyr, ac mae modd nodi'r meysydd ar gyfer addasu eu practis er mwyn goresgyn unrhyw optimistiaeth neu'r syndrom dechrau eto mewn achosion o esgeulustod.

## Tips Gorau ar gyfer Gweithio ag Esgeulustod

> I can't seem to get the family to understand what I am concerned about.

### Rhowch gynnig ar y canlynol;

- Byddwch yn glir – defnyddiwch iaith y mae modd ei deall nid yn unig ar lafar ond mewn cynlluniau ac asesiadau.
- Rhannwch y gronoleg yr ydych wedi paratoi gyda'r teulu.
- Meddyliwch am y ffyrdd creadigol o drafod y materion sydd yn destun pryder i chi.
- Lluniwch gardiau unigol gydag un pryder ar bob un ohonynt. Gofynnwch i'r teulu eu blaenoriaethu a'u gadael gyda'r teulu.
- Gofynnwch i'r teulu pam eu bod yn credu eich bod yn ymweld a defnyddiwch eu hymateb fel ffordd i drafod y materion.
- Os ydych wedi gweithio gyda'r teulu am gyfnod hir a'n teimlo nad ydych yn cael effaith wrth drafod pethau, yna ewch yno gyda chydweithiwr er mwyn creu ffordd newydd o siarad am yr un pethau.
- Byddwch yn ymwybodol o allu gwybyddol y teulu ac addaswch eich iaith (mae hyn yn hynod berthnasol gyda theuluoedd sydd ag anableddau dysgu sylweddol).

There is a plan in place, but I remain concerned for the child's safety

**Rhowch gynnig ar y canlynol:**

- Trafodwch eich pryderon gyda'ch rheolwr llinell, y person a enwir o fewn eich mudiad sydd yn gyfrifol am ddiogelu plant neu os yw'r plentyn ar y Gofrestr Diogelu Plant, cysylltwch gyda Chadeirydd y Gynhadledd Diogelu Plentyn.
- Gofynnwch i gynnal yr adolygiad ynghynt.
- Paratowch gronoleg aml-asiantaeth.
- Ystyriwch am y pryderon sydd yn ymwneud gyda phlant a rhieni ac effeithlonrwydd y cynllun cyfredol. A yw'r cynllun yn gywir? Ai dyma'r canlyniadau cywir? A ydym yn glir am yr hyn yr ydym yn disgwyl ganddynt? A ydym wedi cadarnhau bod y rhieni yn deall yr hyn yr ydym yn ei ddweud?
- Defnyddiwch declynnau/adnoddau er mwyn trefnu pryderon.
- Gofynnwch am gyngor cyfreithiol am ddechrau'r 'Public Law Outline'.

The plan doesn't seem to be working, the family is not cooperating, I feel 'stuck'.

**Rhowch gynnig ar y canlynol;**

- Adolygwch y cynllun – beth ydych wedi gwneud hyd yma i ymgysylltu'r teulu – beth sydd wedi bod yn fwyaf llwyddiannus? Beth sydd wedi bod yn lleiaf llwyddiannus a pham?
- Dylid cynnal dadansoddiad o'r risgiau sy'n wynebu'r plentyn.
- Trafodwch yr achos gyda'ch rheolwr llinell neu'r uwch-reolwr.
- Os oes yna faterion ymarferol yn eich atal rhag datrys hyn. Efallai bod yna gymaint o anhrefn yn y cartref, mae'n amhosib eich bod yn cwblhau asesiad yn y fath amgylchedd. Os yw hyn yn wir, ceisiwch gynllunio yn ofalus sut y byddwch yn cwblhau unrhyw asesiad o'r teulu yn yr amgylchiadau yma neu ewch i ddefnyddio lleoliad arall.

- Dylech ddatrys rhai o'r materion ymarferol sydd yn tynnu sylw'r teulu (byddwch yn ofalus nad ydynt yn cael eu defnyddio fel esgus i dynnu eich sylw chi).
- Meddyliwch am yr hyn y mae'r teulu yn hoffi ei drafod – y plant, eu hunain, materion tai. Strwythurwch eich ymweliad a rhowch 10 munud iddynt ar ddechrau'r sesiwn i fwrw bol ac yna treuliwch weddill y sesiwn yn trafod y materion yr ydych am eu trafod.
- Dylech gynllunio eich ymweliadau. Meddyliwch yn ofalus am ba amser y byddwch yn ymweld a sut fyddwch yn gwneud hyn. Dylech gynnal ymweliadau sydd wedi eu trefnu a rhai sydd heb eu trefnu.
- Dylech ystyried yn ofalus sut ydych yn mynd i fonitro a mesur y materion sydd yn ymwneud ag esgeulustod; nid yw'n dderbyniol i dderbyn hyn fel rhywbeth parhaus. Defnyddiwch adnoddau ac offerynnau er mwyn adolygu unrhyw newid, rhannwch adborth gyda'r teulu am eich barn chi am y sefyllfa.
- Dylech ystyried ffyrdd creadigol o ymgysylltu gyda'r teulu e.e. fideo, gemau (gweler y teclynnau asesu o fewn yr atodiadau).
- Ystyriwch ddefnyddio cytundeb ysgrifenedig gyda'r teulu.
- Dylech ddefnyddio arsylwi fel dull o gasglu gwybodaeth a chynnig adborth i'r teulu a chymryd rhan mewn trafodaethau am hyn.
- Ystyriwch drafod eich achos o fewn eich tîm, mewn cyfarfod tîm o bosib. Efallai y bydd eich cydweithwyr yn meddwl am ffyrdd newydd o ymgysylltu gyda'r teulu neu'n cynnig cefnogaeth. Ystyriwch ymweliad ar y cyd gyda chydweithiwr/gweithiwr achos/uwch ymarferydd. Bydd hyn yn darparu cefnogaeth i chi ac yn helpu chi hefyd i gael golwg "o'r newydd" ar yr achos.

> The family had shown that they do know and understand what good parenting ………but they don't do it consistently.

Mae hyn yn cael ei adnabod fel esgeulustod episodig

**Rhowch gynnig ar y canlynol;**

- Rhannwch y cronolegau rhwng yr asiantaethau – adeiladwch gronoleg aml-asiantaeth.
- Defnyddiwch hyn er mwyn adolygu'r cynllun aml-asiantaeth.
- Cadarnhewch a oes yna batrwm i'r dirywiad neu'r hyn sydd yn sbarduno ymddygiad ac a oes modd adnabod hyn.

- Ystyriwch y canlyniad hirdymor tebygol ar gyfer plant heb unrhyw newid a beth yw difrifoldeb hyn.
- Byddwch yn eglur am y canlyniadau a ddymunir i'r plant.
- Defnyddiwch yr un meini prawf gyda phlant anabl.
- Ystyriwch yr effaith ar y plant yn y teulu a ddaw o esgeulustod sydd wedi parhau dros amser, er yn digwydd o dro i dro,

> It's hard to effect change and work with issues of neglect within this family because sometimes parenting is 'good enough' and other times it isn't.

**Rhowch gynnig ar y canlynol**

- Mae'n gyffredin bod rhieni sydd wedi derbyn cymorth a gwasanaethau fel rhaglenni sgiliau rhianta yn debygol o wybod yr hyn yw rhianta da. Yn aml, mae rhieni yn siarad am yr hyn y dylent fod yn gwneud gyda'u plant, ac er eu bod yn medru dangos gallu i ddarparu gofal digonol i'w plant, nid ydynt yn medru gwneud hyn yn gyson.
- Dylech ystyried cynnwys unigolion sydd yn medru gosod esiampl i rieni, yn y cartref yn ddelfrydol. Efallai bod yna adnoddau ar gyfer y teulu estynedig am hyn neu wasanaethau sydd yn darparu'r gefnogaeth yma. Nod hyn yw treulio cyfnodau sylweddol o amser yn asesu ac yn llywio'r rhianta. Efallai ei fod yn golygu helpu mam neu dad ifanc i roi bath yn ddiogel i faban. Neu, mae modd helpu'r teulu i ddeall yr angen am hylendid da yn y gegin.
- Dylech ystyried cyfeirio hyn at Gynhadledd neu Gyfarfod Grŵp Teulu.
- Sicrhewch mai anghenion y plentyn yw'r ffocws. Siaradwch gyda'r plant neu ewch i wneud darn o waith uniongyrchol er mwyn deall eu bywydau bob dydd yn well.
- Pan fyddwch yn gwybod bod rhieni yn medru gofalu'n ddigonol am ychydig o'r amser, mae'n dod yn anoddach i barhau'n wrthrychol ac mae yna duedd i wyro tuag at fod yn fwy optimistaidd. Dylid nodi pan fod yna ddiffygion yn y rhianta a lluniwch gronoleg o'r damweiniau a'r materion a ddaw o oruchwyliaeth wael.
- Cofiwch fod yna duedd i ddefnyddio meini prawf gwahanol i ddelio gydag esgeuluso plant anabl. Dylid defnyddio'r un meini prawf. Mae plant anabl 3.4 gwaith yn fwy tebygol o gael eu cam-drin o'u cymharu gyda phlant eraill.
- Ceisiwch ddysgu a yw hyn yn cael ei achosi gan agwedd y rhiant neu gapasiti/gallu'r rhiant i gwrdd â gofynion eu plant.

| Child Development Needs | Parenting Capacity | Family and Environmental Factors |
|---|---|---|
| **Health:**<br>To be clean<br>To receive medical care<br>To receive dental care<br>Feeding appropriate to age and stage of development<br>Warmth<br>Shelter<br><br>**Education:**<br>Play<br>Stimulation<br>Friendships<br>Experience of success and achievement<br>Access to books and toys<br>Support with special educational needs<br><br>**Emotional/Behavioural**<br>Love<br>Security<br>Boundaries<br>Attachment to a key individual<br>To feel valued<br><br>**Identity:**<br>To feel valued<br>To feel that they belong<br>An understanding of their cultural heritage<br>Access to positive reflections of themselves in society<br><br>**Self-Care Skills:**<br>To wash and dress unless prevented by disability<br>Independence appropriate to age and dev. stage<br>To feed self unless prevented by disability | **Basic Care:**<br>Meeting child's physical needs<br>Medical and dental care<br>Providing suitable clothing<br>Personal hygiene<br><br>**Ensuring Safety:**<br>Protection from harm or danger<br>Protection from unsafe adults<br>Supervision<br>Boundaries<br>Selecting responsible baby sitters<br>Giving children an understanding of potential dangers<br><br>**Emotional Warmth:**<br>Meeting child's emotional needs<br>Offering a positive sense of child's racial and cultural heritage<br>Appropriate physical contact<br>Stability<br>Praise and encouragement<br><br>**Stimulation:**<br>Play/ reading / talking<br>Experience of success<br>School attendance<br><br>**Guidance/Boundaries:**<br>Enabling child to regulate own behaviour and emotions<br>Modelling appropriate behaviour<br><br>**Stability:**<br>Developing and maintaining secure attachments where possible<br>Consistency of emotional warmth<br>Contact with family members and significant others. | **Family History and functioning:**<br>Strengths and difficulties<br>Childhood experiences of parents<br>Family Functioning<br>Sibling Relationships<br>Absent parents<br><br>**Wider Family:**<br>Who are these people?<br>What role do they play?<br><br>**Housing:**<br>Is it suitable / have basic amenities?<br><br>**Employment:**<br>Who is working?<br>How does employment or lack of employment impact on children?<br><br>**Income:**<br>Do financial difficulties affect the child?<br><br>**Social Integration:**<br>Integration or isolation?<br><br>**Community Resources:**<br>Are they present in the area?<br>Can the family access them? |

### Child Development

- Underweight/overweight
- Appears hungry/thirsty
- Cold to touch
- Developmental delay
- Speech delay
- Lacking energy
- Prone to illness and infection
- Repeated episodes of gastro-enteritis
- Skin infections
- Dry thin hair
- Alopecia
- Poor school attendance
- Poor attachments
- Inappropriate clothing for weather conditions
- Unclean/poor hygiene
- Very poor dental hygiene
- Nowhere for child to sleep
- Isolated/withdrawn/behaviour problems/sad or expressionless
- Self harm
- No understanding of cultural
- heritage/ racism from family members
- Children with health or developmental needs being denied access to services.
- Stealing food/money

### Parenting Capacity

- Parental learning disability
- Parental substance misuse
- Parental mental health
- Parental history of poor parenting
- Little support from extended family
- Bereavement or loss
- Poor attachment
- Unreal expectations of child for age and stage of development
- Low warmth/high criticism
- Poor stimulation of child
- Use of immature or unsuitable baby sitters inability to protect children from unsafe adults
- No boundaries set for child
- Lack of supervision
- Limited understanding of potential dangers to children eg.. Burns, road safety, stranger danger
- Lack of emotional care eg..warm regard, praise, encouragement, security
- Not accessing vital health care for child
- Young children left alone or unsupervised

### Family and Environmental Factors

- Poverty
- Unemployment
- Isolation
- Poor education
- Poor Housing
- Overcrowding
- Frequent house moves
- Pets / animals
- Poor hygiene
- No leisure interests outside the home
- Racism
- Depression
- Not eligible for benefits because of political / immigration status

**Egwyddorion allweddol wrth ystyried a ddylid cynnal Asesiad**

- **Deallwch amgylchiadau'r teulu:** Ni ddylid dechrau unrhyw asesiad heb gael dealltwriaeth fanwl am gefndir y teulu a'r rôl y mae gwasanaethau wedi chwarae yn y gorffennol. Yn sgil y rheswm hwn, cwblhau **Genogram, Hanes Cymdeithasol a Chronoleg** yw'r pwynt dechrau pwysicaf.
- **Mae achosion o esgeulustod sy'n digwydd weithiau yn brin:** Mae'n debygol fod yna sawl achos; weithiau mân-achosion, sydd dros amser yn arwain at bryderon cynyddol. Mae'n bwysig adnabod a dadansoddi unrhyw batrymau o ymddygiad sydd yn esgeuluso, a hynny o fewn cyd-destun y teulu. Yn sgil y rheswm hwn, nid oes modd gorbwysleisio pa mor ddefnyddiol yw'r cronolegau.
- **Mae rhieni yn debygol o feddu ar anghenion eu hunain:** Mae hyn yn medru cynnwys camddefnyddio sylweddau, anableddau dysgu; iselder ar ôl rhoi genedigaeth, problemau iechyd meddwl, cam-drin yn y cartref – mae hyn oll yn golygu bod angen lefelau uchel o gymorth. Fodd bynnag, mae'n bwysig cynnal ffocws clir ar anghenion y plentyn ynghyd â'n cynnig cymorth a gwasanaethau i'r rhieni.
- **Dylech osgoi drifft a diffyg ffocws.** Mae'n bwysig cynllunio'r asesiad a bod yna amserlen glir ar gyfer ei gwblhau. Mae'n hanfodol gweithio yn unol gyda'r amserlenni. At hyn, mae'n bwysig nad ydych yn oedi rhag darparu gwasanaethau, gan aros am ganlyniad yr asesiad. Mae gwasanaethau ac ymyriadau yn medru llywio'r broses asesu.
- **Byddwch yn ofalus rhag dod yn "imiwn" i esgeulustod:** Mae gweithwyr sydd yn gweithio mewn meysydd lle y mae rhieni yn esgeuluso plant yn gyffredin yn medru dod mor gyfarwydd gyda hyn ac yn tueddu i leihau neu 'normaleiddio' sefyllfaoedd a fyddai fel arall yn cael eu hystyried fel rhai annerbyniol. Mae goruchwyliaeth gadarn, sydd yn cynnwys trafodaethau myfyriol a gwerthusiadau, yn hanfodol er mwyn atal gweithwyr rhag datblygu'r tueddiadau yma. Mae hefyd yn werthfawr bod gweithwyr o asiantaethau gwahanol yn dod at ei gilydd i gwrdd e.e. mewn cyfarfodydd tîm er mwyn trafod materion, rhannu syniadau a sicrhau bod yna ffocws ar faterion yn ymwneud ag esgeulustod.
- **Defnyddiwch declynnau asesu er mwyn ffocysu ac adolygu:** Mae teclynnau asesu yn medru cael eu defnyddio fel ffordd o sicrhau bod yna dystiolaeth i'ch pryderon a'n rhoi eglurder a sail ddamcaniaethol i unrhyw weithdrefnau cyfreithiol os ydynt eu hangen. Mae teclynnau asesu yn medru amlygu ble y mae angen mwy o waith manwl neu waith ar y cyd gyda gwasanaethau arbenigol. Dylid rhoi ystyriaeth i'r Pecyn Teuluol o Holiaduron a Graddfeydd (DOH), sy'n rhan o'r Fframwaith ar gyfer Asesu.
- **Ystyriwch ar bwynt cynnar y tebygolrwydd bod rhiant yn medru gwneud newid:** Dylai ymarferwyr sydd yn delio ag esgeuluso plant fod yn ofalus rhag bod yn rhy optimistaidd am botensial rhieni i newid yn barhaus a chynnig rhianta

sydd yn dda a'n gyson. Weithiau, nid yw newid yn bosib ac mae'n rhaid gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar ganlyniadau amserol ar gyfer y plentyn. Mae'r peryg yma yn cael ei adnabod fel **rheol optimistiaeth** sydd yn medru digwydd pan fydd ymarferwyr yn amharod i ystyried arwyddion posib o gam-drin neu'n diystyru'r hyn sydd gan blant i'w ddweud. (2009, Dysgu Gwersi o adolygiadau o Achosion Difrifol, Blwyddyn 2, Ofsted).

- Dylai gweithwyr fod yn ofalus ac ymatal rhag gweithredu'r **syndrom dechrau eto** (2008, Brandon et al, DCFS) gyda theuluoedd sydd am sicrhau asesiad mwy positif pan fydd gweithwyr yn newid. Mae hyn yn medru arwain at rhyw fath o optimistiaeth sy'n gamarweiniol ac yn medru oedi a thanseilio effeithlonrwydd asesiad neu gynllun.
- **Asesu ffynonellau o ddygnwch yn ogystal â risg:** Tra bod y gwersi o'r adolygiadau o achosion difrifol ac ymchwil yn medru cynnig sylfaen gadarn ar gyfer ymatal rhag bod yn rhy optimistaidd, nid yw hyn yn golygu y dylai asesiadau anwybyddu'r pwysigrwydd o ffynonellau o ddygnwch a chyfleoedd i adeiladu ar feysydd o fywyd plentyn sydd yn lleihau'r risg. Mae dygnwch wedi ei ddisgrifio fel: 'Qualities which cushion a vulnerable child from the worst effects of adversity, in whatever form it takes, and which may help a child or young person to cope, survive and even thrive,' (Gilligan, 1997). Mae dygnwch yn medru cael ei ddisgrifio fel presenoldeb perthynas gydag oedolyn neu ddiddordebau diogel y tu allan i'r cartref. At hyn, ni ddylid anwybyddu anghenion plentyn sy'n ddygn.
- **Dylech arsylwi'r modd y mae'r rhiant a'r plentyn yn rhyngweithio:** Mae arsylwi yn medru llywio asesiadau o ymlyniad a'n cynnig dealltwriaeth well o'r berthynas rhwng y rhieni a'r plentyn a'r plentyn hwnnw a'i frodyr/chwiorydd. Mae disgwyliadau na sydd yn realistig neu ddehongliadau camarweiniol o ymddygiad plentyn yn amlwg yn nodwedd o rianta sy'n esgeuluso, er enghraifft, plentyn sydd yn crio tipyn yn cael ei ddisgrifio fel plentyn 'drwg' – fel petai'r weithred hon yn fwriadol sydd yn ceisio gwylltio'r rhiant.
- **Dylech barhau'n ymarferol a ffocysu ar yr anghenion sylfaenol:** Drwy gydol y broses, dylech barhau i ystyried y pethau sylfaenol - a yw'r plentyn yn gyfforddus, a oedd digon o fwyd yn y tŷ, a oes yna ddigon o glytiau, a yw'r tŷ yn ddigon cynnes, a oes digon o ddŵr poeth ar gyfer golchi? Byddwch yn barod i ofyn cwestiynau a pharhau'n chwilfrydig! Peidiwch â derbyn yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud heb ofyn cwestiynau.
- **Aseswch bob un plentyn o fewn y teulu fel unigolyn unigryw:** Nid fydd pob plentyn yn cael ei drin yn yr un ffordd neu'n meddu ar yr un pwysigrwydd o fewn teulu. Yn benodol, efallai bod yna **blentyn sydd yn cael ei ystyried yn wahanol**. Efallai bod y rhain yn blant sydd yn cael eu hystyried gan rieni fel y sawl a roddodd enedigaeth anodd iddynt, marwolaeth partner, neu newid mewn amgylchiadau bywyd er enghraifft. Mae'r teimladau negatif am sefyllfa yn medru cael eu gwthio i gyfeiriad y plentyn. Mae plentyn a oedd yn ddamwain neu

lysblentyn yn medru arwain at ddicter yn y gofalwr a/neu'n effeithio ar y bondio. Efallai y bydd y plant yma yn cael eu trin yn wahanol o fewn y teulu.

- **Byddwch yn hyderus yn eich asesiad** gan sicrhau ei fod yn cael ei gynnal mewn modd sydd yn gyson gyda'r ***Fframwaith ar gyfer Asesu***. Mae asesiadau arbenigol yn medru bod yn ddefnyddiol ond dylid ond eu comisiynu mewn amgylchiadau penodol, sydd wedi eu cytuno.

**Asesiadau mewn Amgylchiadau Cymhleth**

Mae'r broses o asesu yn medru amlygu anghenion amrywiol a chymhleth o fewn teulu unigol, sydd o bosib angen ymateb mwy arbenigol, aml-asiantaeth.

Mae esiamplau o'r fath sefyllfaoedd yn cynnwys:

- **Plant sydd wedi eu geni i rieni ag anghenion arbennig, neu afiechyd meddwl cronig**

Mae rhieni ag anabledd neu  salwch hirdymor yn medru wynebu heriau penodol mewn bywyd, sydd yn medru effeithio ar eu gallu i rianta. Dylid asesu'r fath rieni fel rhieni ynghyd â chynnal asesiad o  anghenion y plentyn os yn briodol. Dylai Gwasanaethau Oedolion a Phlant weithio ar y cyd. Rhaid i hyn ddigwydd yn yr amgylchiadau yma.

- **Plant sydd wedi eu geni i famau sydd yn defnyddio cyffuriau yn ystod beichiogrwydd**

Mae plant sydd yn arddangos symptomau o ddiddyfnu yn medru profi trallod neu ymddygiad  aflonydd ac mae rhieni yn medru cael trafferth yn rheoli hyn. Mae'n medru bod yn anodd cysuro'r plentyn. Mae rhieni sydd ag ychydig o hyder yn eu sgiliau rhianta a heb eu hysgogi o bosib yn sgil defnyddio cyffuriau yn wynebu trafferth yn diwallu anghenion y plentyn. Efallai bod angen asesiad cyn-geni yn yr achosion yma er mwyn llywio'r cynllunio. Mae rhieni sydd camddefnyddio sylweddau yn medru ac yn niweidio plant a phobl ifanc, a hynny ar bob oedran - pan fyddant yn cael eu geni ac wrth droi'n  oedolion (ASMD 2003)

- **Babanod sydd â phwysau geni isel a'u geni'n gynamserol**

Mae gyda phlentyn mewn uned gofal arbenigol yn medru bod yn heriol iawn ac mae awyrgylch sydd mewn uned annibyniaeth uchel  yn medru cael effaith negatif ar allu'r gofalwr i fondio gyda'r babi. Mae'r plant yma yn fwy tebygol o gael trafferthion bwyd, salwch cronig,  trafferthion niwrolegol, ymddygiadol, gwybyddol, anableddau a phobl eraill. Mae yna gysylltiad rhwng babanod sydd  **â phwysau geni isel** ac anfantais economaidd-gymdeithasol, amodau tai gwael ac iselder.

- **Plant ag anableddau**

Mae plant ag anableddau hefyd yn medru cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ond maent yn cael eu tangynrychioli o fewn ffigyrau diogelu plant.

Mae adolygiadau sydd wedi eu cynnal gan Ganolfan Iechyd Cyhoeddus Prifysgol John Moore Lerpwl, ar ba mor gyffredin yw trais a'r risg o drais ymhlith plant ag anableddau, a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2012, wedi canfod fod plant ag anableddau bedair gwaith bron yn fwy tebygol o brofi trais o'u cymharu gyda phlant na sydd yn anabl. Roedd yr adolygiad yn nodi fod plant ag anableddau 3.7 gwaith y yn fwy tebygol o ddioddef rhyw fath o drais o'u cymharu gyda phlant na sydd anabl, 3.6 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef trais corfforol, a 2.9 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef trais rhywiol. Mae plant sydd â nam meddyliol neu ymenyddol yn fwyaf agored i niwed, a 4.6 gwaith mewn risg o wynebu trais rhywiol o'u cymharu â'u cyfoedion na sydd yn anabl. Mae'r rhesymau am hyn yn amrywiol a chymhleth. Fodd bynnag, mae plant ag anableddau o bosib yn llai galluog i fedru cyfathrebu eu hanghenion neu'u pryderon, neu'n cael mynediad at help a chymorth y tu hwnt i'w teuluoedd. Mae'r straen o ofalu am blentyn anabl yn barhaus ac nid yw rhieni o reidrwydd yn derbyn yr holl wasanaethau a'r cymorth sydd angen arnynt er mwyn diwallu anghenion eu plentyn. O ganlyniad, efallai bod y plentyn yn dod yn ffynhonnell o rwystredigaeth - go iawn ai peidio - i'r gofalwr.

Mae plant anabl weithiau yn medru derbyn gofal mewn teuluoedd lle y mae yna broblemau iechyd meddwl gan y rhieni neu gam-drin yn y cartref a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r straen yma yn medru cael ei wthio ar y plentyn gan arwain at rieni yn defnyddio hyn fel esgus ar gyfer cam-drin neu esgeuluso.

Efallai bod hyn yn gwaethygu pan fydd y rhwydwaith proffesiynol yn ffocysu ar anabledd y plentyn yn hytrach na thrafferthion y plentyn. Mewn rhai achosion, mae anabledd y plant yn medru bod yn ganlyniad i gam-drin y plentyn, ac efallai eu bod yn fwy bregus yn sgil esgeulustod pellach o ganlyniad i'w hanabledd.

- **Siarad gyda theuluoedd am faterion sy'n ymwneud ag esgeulustod**

Mae'n aml yn anodd iawn i weithwyr proffesiynol i godi materion gyda theuluoedd am esgeulustod. Mae siarad am esgeulustod angen ymarferwyr i gwestiynu eu gwerthoedd a chyfathrebu gyda rhieni ar faterion, sydd yn bersonol a'n anodd ei drafod, er enghraifft, arogl gwael yn y tŷ, bryntni, bwyd hen ar y carped, hylendid personol y rhiant, a bod hwy a'r plant yn frwnt ac yn drewi.

Fel rhan o'r broses asesu, mae ymarferwyr angen sicrhau bod pryderon yn cael eu deall gan y teulu. Maent angen iddynt fod yn glir ond yn sensitif, ymatal rhag defnyddio jargon, yn ymwybodol o'ch diogelwch personol os yw rhiant yn dod yn grac a gwiriwch ddealltwriaeth y rhiant o'r hyn sydd wedi ei ddweud wrthynt, yn enwedig os oes arwyddion bod y rhiant yn meddu ar anabledd dysgu.

- **Pwysigrwydd Dadansoddi**

Mae cynnal asesiad yn broses ddeublyg o gasglu a threfnu gwybodaeth ac yna ei ddadansoddi. Mae dadansoddi yn golygu rhoi pwysigrwydd i'r hyn sydd wedi ei arsylwi neu'i fynegi, a phennu'r hyn y dylai ddigwydd nesaf.

A oes yna gyfiawnhad digonol wrth barhau gyda'r gwasanaethau, naill ai'n wirfoddol neu drwy rôl statudol?

Yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r wybodaeth sydd wedi ei asesu, beth ddylai fod yn y cynllun er budd y plentyn/plant?

Beth mae'r wybodaeth yma yn golygu i ddiogelwch a lles y plentyn?
Tra bod hyn yn ddadansoddiad gwaith cymdeithasol, fel sydd yn digwydd gyda chasglu'r wybodaeth, dylid gofyn am bersbectif aml-asiantaeth o ran dehongli a deall y wybodaeth ac yn nhermau'r hyn y mae'n golygu ar gyfer plant unigol o fewn yr aelwyd. Mae dadansoddiad yn ystyried y dystiolaeth sydd wedi ei chasglu a'n defnyddio damcaniaethau er mwyn helpu deall y materion yma a'u gwerthuso hwy'n briodol.

## Atodiad 1

## Diwrnod ym Mywyd Plentyn

**Beth yw Arferion Bob Dydd y Plentyn?**

**Rydych yn medru gwneud y gwaith hwn gyda'r plentyn mewn amryw o ffyrdd e.e. cadw dyddiadur, defnyddio wyneb cloc, danfon llythyr at rywun, llinell amser ayyb. Y nod yw ennyn dealltwriaeth o brofiad bywyd y plentyn – beth yw profiad y plentyn o'r byd o'i gwmpas yn y cartref hwn gyda'i rieni/gofalwyr?**

### Cerdded

A ydynt yn defnyddio cloc er mwyn codi? A oes rhywun yn eu codi?
Pryd mae hyn yn digwydd? A oes rhaid iddynt godi rhywun arall? A yw'r un peth yn digwydd o ddydd i ddydd?

### Brecwast

A ydynt yn cael brecwast? Pa fath o fwyd maent yn ei gael? A ydynt yn cael dewis? Pwy sydd yn gwneud y brecwast?

### Gwisgo

A ydynt yn gwisgo eu hunain? A ydynt yn helpu rhywun arall i wisgo? A ydynt yn golchi ac yn glanhau eu dannedd cyn gwisgo? Pwy sydd yn sicrhau eu bod yn gwneud hyn? A oes yna ddŵr poeth a dillad glân ar gael i'w defnyddio?

### Mynd i'r Ysgol

A oes rhywun yn eu cludo i'r ysgol? A oes rhaid iddynt gludo unrhyw un arall? A ydynt yn croesi heolydd prysur? Pwy sydd yn eu helpu i wneud hyn? A ydynt yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon?

### Yn yr Ysgol

Beth ydynt yn hoffi am yr ysgol? Beth nad ydynt yn hoffi am yr ysgol? A oes ffrindiau ganddynt? Beth ydynt yn ei wneud gyda'u ffrindiau? A ydynt yn cael eu bwlio? Beth ydynt yn gwneud yn ystod egwyl? Beth ydynt yn bwyta adeg cinio? A oes hoff athrawon neu bynciau ganddynt?

### Gwyliau ysgol/penwythnos

A ydynt yn gofalu am rywun? A oes rhaid iddynt wneud swyddi? Os felly, beth yw'r rhain ac ar gyfer beth? Sut arall y maent yn treulio eu hamser? A ydynt yn gweld ffrindiau? Pwy sydd yn gofalu amdanynt pan nad ydynt yn yr ysgol? Pwy sydd yn goruchwylio prydau bwyd?

## Ar ôl ysgol

A oes rhywun yn eu casglu o'r ysgol? A yw'r person yma yno'n brydlon? A ydynt yn rhan o unrhyw glybiau ar ôl ysgol? Sut maent yn dod adref o'r ysgol? A ydynt yn gofalu am rywun ar ôl yr ysgol? A ydynt yn cwrdd â ffrindiau? A oes rhywbeth yno iddynt fwyta ar ôl cyrraedd adref? Beth sydd yno ar eu cyfer? A ydynt angen paratoi bwyd ar gyfer rhywun arall?

## Nosweithiau

A ydynt yn cael swper? Pa amser yw hyn? Pwy sydd yn paratoi'r pryd bwyd? Beth yw eu hoff brif fwyd? A ydynt yn cael hyn yn aml? A ydynt yn bwyta gyda'r teulu/gofalwyr? Os na, ble maent yn bwyta? Pwy sy'n cael gwybod os ydynt yn llwglyd a beth sydd yn digwydd? A ydynt yn gwylio'r teledu? Os felly, beth maent yn gwylio? A ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd / safleoedd rhwydweithio cymdeithasol? A ydynt yn cael eu goruchwylio? Gyda phwy ydynt yn cyfathrebu ar-lein? Beth yw testun y sgwrs? A ydynt yn mynd allan? Os felly, i ble, gyda phwy a beth sy'n digwydd? A ydynt yn hoffi teganau a gemau? A oes rhai ganddynt? Beth mae eu rhieni/gofalwyr yn gwneud gyda'r hwyr? Beth yw eu barn hwy am hyn? A ydynt yn treulio unrhyw amser gyda'u rhieni/gofalwyr gyda'r hwyr? Os felly, beth maent yn gwneud? A ydynt yn gyfrifol am rywun arall gyda'r hwyr?

## Amser gwely

A oes yna amser penodol ar gyfer mynd i'r gwely? Pwy sydd yn penderfynu ar yr amser gwely? Ble maent yn cysgu? A yw'n lân ac yn gynnes? A ydynt yn newid ar gyfer y gwely? A ydynt yn brwsio eu dannedd cyn gwely? A ydynt yn cysgu heb gael eu haflonyddu? Pwy arall sydd yn y tŷ dros nos? A ydynt yn gyfrifol am rywun arall adeg amser gwely?

**Atodiad 2**

**SIART ARSYLWI AR Y RHYNGWEITHIO**

Manylion, enw a dyddiad geni'r rhieni
Manylion, enw a dyddiad geni'r plentyn
Dyddiad ac Amser:

| | Plentyn | Rhiant | Ymateb |
|---|---|---|---|
| Chwarae | | | |
| Siarad | | | |
| Cyffwrdd | | | |
| Chwarae | | | |
| Cynnig sicrwydd | | | |
| Tynerwch | | | |
| Ffiniau | | | |
| Canllawiau | | | |
| Canmoliaeth | | | |
| Beirniadaeth / Sylwadau negatif | | | |

**Atodiad 3**

**GWERTHUSO**
Ar sail y wybodaeth sydd wedi ei hystyried

**1. Aseswch yr holl feysydd lle y mae risgiau wedi eu nodi**
Dylech asesu bob un ar wahân yn hytrach na'n ffocysu ar yr unigolyn(ion) sydd yn rhan o hyn.

**2. Trefnwch y risgiau yn unol â'u pwysigrwydd o ran y plentyn**
Dylech fod yn ymwybodol fod canlyniadau esgeulustod a cham-drin emosiynol yn medru bod yn a) hirdymor a/neu'n digwydd ar unwaith. b) Difrifol a/neu lai difrifol. c) Yn parhau am gyfnod byr a/neu yn y tymor byr. Dylech hefyd feddwl am y cydbwysedd o amlder yr ymddygiad sy'n peri risg a difrifoldeb y canlyniad.

**3. Ystyriwch y ffyrdd y mae materion yn rhyngweithio â'i gilydd**
Cofiwch fod pob ymddygiad yn ganlyniad i'r rhyngweithio rhwng unigolyn a'r nodweddion amgylcheddol.

**4. Nodwch yr hyn sydd yn gorfod newid (neu'i wneud yn wahanol)**
Gwnewch hyn ar gyfer pob un risg sydd wedi ei nodi. Beth sydd yn gorfod digwydd er mwyn lleihau'r risg i lefel lle nad oes yna risg o niwed sylweddol mwyach. (Mae'r rhain yn 'newidiadau angenrheidiol'). Nodwch pa ganlyniadau sydd eu hangen ar y plentyn.

**5. Dylech gadarnhau a yw'r rhiant wedi ceisio, neu wedi derbyn cais, i wneud newidiadau tebyg cyn hyn**
I ba raddau oeddynt yn llwyddiannus? Pam y byddent yn llwyddo nawr os oeddynt yn aflwyddiannus cyn hyn? Os nad oes rhywbeth hanfodol yn newid, cofiwch mai'r arwydd gorau o ymddygiad yn y dyfodol yw'r ymddygiad a brofwyd yn y gorffennol.

**6. Gwerthuswch y rhinweddau a'r gwendidau**
Gwnewch hyn ar gyfer y teulu cyfan a'r unigolion sydd yn rhan o'r teulu. Nid yw hyn yn fater o restru'r nodweddion positif a negatif ond yn fwy o ran ceisio taro cydbwysedd rhyngddynt.

7. **Nodwch y gobaith ar gyfer creu newid positif**
O'r newidiadau sydd eu hangen (yn rhan o 4 uchod), pa rai y mae modd eu cyflawni'n realistig o fewn amserlenni sydd yn arwyddocaol i'r plentyn? Pa rai nad oes modd eu cyflawni a pham?

**8. Nodwch sut y mae modd cyflawni'r hyn sydd angen**
Gan bwy? Erbyn pryd? Pa fath o gymorth a chefnogaeth sydd angen? Pa adnoddau sydd eu hangen? A beth yw llwyddiannus? Nodwch fod ‘cyrhaeddiad’ yn y cyd-destun hwn yn medru golygu ‘cyrhaeddiad cynaliadwy’.

**9. Nodwch sut y bydd newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud os yw rhieni yn gallu neu’n methu eu cyflawni?**
Pwy sydd angen gwneud rhywbeth? Erbyn pryd? Gyda phwy? Gan ddefnyddio pa brosesau? A pha adnoddau?

**10. Nodwch y newidiadau angenrheidiol a fydd yn cael effaith ond na sydd yn medru cael eu cyflawni gan rieni, a’r newidiadau y maent yn medru eu cyflawni?**
Cofiwch y bydd sicrhau rhai newidiadau yn fwy pwysig o lawer na sicrhau rhai eraill.

**11. Dyfeisiwch gynlluniau er mwyn rheoli risgiau**
Mae’n anochel bod gwaith diogelu plant yn cynnwys gwneud asesiadau cymhleth, taro cydbwysedd rhwng y risgiau a’n cadarnhau’r llwybr mwyaf diogel. Mae gweithwyr proffesiynol yn cymryd risgiau wrth weithio gyda phlant, teuluoedd, eu hunain, cydweithwyr ac asiantaethau. Er mwyn sicrhau bod modd amddiffyn y risgiau yma yn broffesiynol, rhaid iddynt feddu ar y nodweddion canlynol:

- Yn seiliedig ar asesiad risg strwythuredig ac sydd wedi ei ddadlau’n eglur.
- Wedi ei gofnodi - fel bod y casgliadau a’r ystyriaethau sydd yn sylfaen iddynt yn eglur i bawb eu gweld – gan gynnwys y rhieni.
- Nodi’n eglur beth sydd angen newid (y newidiadau angenrheidiol) a’r hyn sydd yn medru bod yn fuddiol (Newidiadau dymunol). Mae’r broses o sicrhau newid yn aml yn cynnwys taro cydbwysedd rhwng a) y colledion posib yn erbyn yr enillion a b) cymorth yn erbyn ymyrraeth. Rhaid cael gobaith go iawn o sicrhau newid o fewn amserlen a chyd-destun sydd yn bwrpasol o ran anghenion hirdymor a byrdymor y plentyn.
- Nodwch yn eglur pwy sydd angen newid. Dylai hyn fod yn nhermau pwy sydd yn gyfrifol am wneud y newidiadau a phwy sydd yn mynd i’w cynorthwyo i wneud y newid.
- Byddwch yn effeithiol yn lliniaru risgiau.
- Byddwch yn eglur am y cyfrifoldebau dros wneud y newidiadau angenrheidiol – gan gynnwys cyfrifoldeb y rhieni ac aelodau teulu.
- Adnabod a gweithredu cynlluniau wrth gefn er mwyn creu’r newidiadau angenrheidiol os na cheir cydymffurfiaeth neu ddiffyg llwyddiant (beth bynnag yw’r rheswm).
- Gosod amserlen sydd yn gyson gydag anghenion datblygu’r plentyn.

**Cadarnhau rhagdybiaeth**

Mae'n bwysig i fod yn realistig am y posibilrwydd o sicrhau canlyniad positif. Dylid ystyried y ffactorau canlynol.

**Truenus**

- Rhieni yn gwadu rhesymoldeb yn sylweddol
- Cam-drin yn sadistaidd neu'n rhyfedd
- Help neu driniaeth yn cael ei wrthod – rhiant yn methu ymgysylltu y tu hwnt i'r bwriad sydd wedi ei fynegi.
- Ystyried y gweithwyr proffesiynol fel 'y broblem' neu achos y problemau.
- Mae'r plentyn yn cael ei gam-drin yn seicolegol.
- Nid yw rhieni yn dangos empathi ar gyfer y plentyn a/neu mae'r ymlyniad yn druenus.
- Nid oes rhyw lawer o gyswllt
- Problemau difrifol iawn gan y rhiant gyda chyffuriau/alcohol.
- Nid yw'r plentyn am ddychwelyd i ofal y rhiant.
- Mae newid yn annhebygol o gael ei gyflawni o fewn amserlen sydd yn bwrpasol ar gyfer y plentyn.

**Amheus**

- Mae rhieni yn amwys ynglŷn â derbyn eu cyfrifoldeb.
- Mae rhieni yn amwys ynglŷn â derbyn help proffesiynol e.e. drwy gyfrwng cydymffurfiaeth gwael neu anghyson gyda Chynllun Diogelu
- Mae rhieni yn beio ei gilydd ac yn methu datrys neu symud y tu hwnt i hyn.
- Mae ymlyniadau yn ansicr a/neu'n orbryderus.
- Mae'r rhieni yn gwneud i'r plentyn dderbyn cyfrifoldeb am ofalu ar ôl y rheini neu'n cynnwys y plentyn mewn modd amhriodol wrth ddeilio gyda materion ar gyfer oedolion.

**Gobeithiol**

- Rhieni yn derbyn yr angen i newid a'r cyfrifoldeb ar gyfer creu a chynnal hyn.
- Rhieni yn derbyn help a'n dangos a'n gwneud defnydd cyson o'r help yma.
- Nid yw'r rhieni yn beio'r plentyn ac yn rhoi anghenion y plentyn yn gyntaf.
- Mae disgwyliadau realistig gan y rhieni o'r plentyn.

## Atodiad 4: Llyfryddiaeth a Chyfeiriadau

Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Diogelu plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o Dan y Ddeddf Plant (WAG, 2006)

**ACDM 2003**
Hidden Harm http://drugs.homeoffice.gov.uk

**B Daniel et al, 2009**
Noticing and helping the neglected child literature review
www.publications.dcsf.gov.uk

**Brandon et al** (2008)
A biennial analysis of serious case reviews, 2003-2005, DCSF, 2008

**Cleaver H, Unell I, Aldgate J** (1999)
Children's Needs – Parenting Capacity: The impact of Parental mental illness, problem alcohol and drug use and domestic violence on children's development

**David Howe 1995**
Child Abuse and Neglect, Palgrave Macaulay

**Danielle Turney** (2000),
Child and Family Social Work 5, pp47 – 56 'The feminising of neglect'.

**Donald Forrester**
in Child Abuse Review Vol. 9 23 5-246 (2000)
'Parental Substance Misuse and Child Protection in a British Sample'.

**Howarth J (ed)** (2000)
"The Child's World: Assessing Children in Need, The Reader" NSPCC London
**Howarth J 2007**
Child Neglect, Palgrave Macmillan
**Howarth, J.** (2013) "Child Neglect: Planning and Intervention", Palgrave, Macmillan, ISBN: 978-0-230-20666-3

**Hildyard, C and Wolfe,D. (2002)**
Child Neglect: developmental issues and outcomes. *Child Abuse and Neglect, 26,* 679-695

**Karen Tanner, Danielle Turney**
Child Abuse Review Vol. 9 337 – 348 (2000)
The Role of Observation in the Assessment of Child Neglect

**Olive Stevenson (2007)**
Child and Family Social Work, 1, pp13-18
'Emotional Abuse and Neglect: a time for reappraisal

**National Assembly Wales (2000)**
Framework for the Assessment of Children in Need and their Families
www.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/childrenfirst/publications/frameworkfortheassessmentofchild

**Marchant, R. (2001)**'The Assessment of Children with Complex Needs', in Howarth, J. (ed) (2001)'The Child's World: Assessing Children in Need', London, Jessica Kingsley.

**Rutter M, (1998)**
Developmental catch-up, and deficit, following adoption after severe global privation, *Journal of Child Psychology and Psychiatry,* 465-476

**Silvie Boronick (2007)**
NSPCC Child Protection research briefing: Child Neglect
www.nspcc.org.uk/inform/research/briefings

**Stein et al 2009**
Neglected Adolescent – Literature Review
www.publications.dcsf.gov.uk

**Hughes K, Bellis MA, et al (2012)**
Prevalence and risk of violence against adults with disabilities: a systematic review and meta-analysis of observational studies.
Lancet, (9826):1621-1629 2012
MED: 22377290

## Canllawiau a Phecynnau Cymorth i Oedolion

Mae'r  canllaw hwn ar gyfer ymarferwyr sydd yn ymateb i sefyllfaoedd lle y mae oedolion yn wynebu risg o bosib yn profi esgeulustod. Mae'r canllaw hwn yn  mynd i ddarparu dealltwriaeth o esgeulustod yng nghyd-destun diogelu oedolion a hwyluso ymateb cymesur pan yn cefnogi Oedolyn.

## Diffiniadau

**Oedolyn Sy'n Wynebu Risg:**

Mae dyletswyddau diogelu  yn berthnasol i oedolion sydd:

- yn meddu ar anghenion gofal a chymorth (p'un ai bod yr awdurdod lleol yn cwrdd ag unrhyw un o'r gofynion ai peidio) a;
- yn profi, neu'n wynebu risg, o gam-drin neu esgeulustod; a
- o ganlyniad i'r anghenion gofal a chymorth, yn methu amddiffyn eu hunain naill ai o'r risg, neu'r profiad o gam-drin ac esgeulustod

Mae hunan-esgeulustod yn cael ei gynnwys o fewn y diffiniadau diogelu yn y canllaw statudol uchod ac yn "ymdrin ag ystod eang o ymddygiad, yn esgeuluso gofal o ran hylendid personol, iechyd a'r hyn sydd o'u cwmpas, ac mae'n cynnwys ymddygiad fel casglu llawer a llawer o bethau".

**Cymorth i Oedolion a Gwasanaethau Gofal:**

Mae'n cynnwys yr holl wasanaethau cymorth a gofal sydd yn cael eu darparu mewn unrhyw leoliad p'un ai bod y rhain yn cael eu hariannu gan asiantaeth statudol neu gan y person ei hun. Mae hefyd yn cynnwys yr angen am ofal a chymorth (p'un ai bod yr awdurdod lleol neu unrhyw asiantaeth eraill yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio).

**Niwed Sylweddol:**

- Mae hyn nid yn unig yn cynnwys cam-drin (sydd yn cynnwys cam-drin rhywiol a ffurfiau eraill o gam-drin na sydd yn gorfforol) ond hefyd nam, neu ddirywiad y mae modd ei osgoi, yn iechyd corfforol neu feddyliol, a nam corfforol, ymenyddol, emosiynol, cymdeithasol neu ddatblygiad ymddygiadol
- Gallai bywyd yr unigolyn fod o dan fygythiad neu mae o dan fygythiad.
- Gallai fod yna effaith ddifrifol, gronig a/neu hirdymor ar iechyd corfforol/emosiynol/lles seicolegol yr unigolyn.

**Risg Sylweddol**

Os oes yna arwyddion nad yw newid yn debygol o ddigwydd yn y lefelau  o risg yn y tymor byr i'r tymor canolig, dylid cymryd camau penodol neu dylid cynllunio hyn. Mae arwyddion o risg sylweddol yn medru cynnwys:

- Hanes o argyfyngau sydd â chanlyniadau sy'n bygwth bywydau
- Yn risg uchel i eraill
- Lefel uchel o atgyfeiriadau aml-asiantaeth wedi eu derbyn
- Risg o gam-drin yn y cartref
- Capasiti amrywiol, hanes o bryderon diogelu / ecsbloetio
- Caledi ariannol, tenantiaeth / sicrwydd cartref yn risg
- Risgiau tân tebygol
- Problemau trefn gyhoeddus: ymddygiad gwrthgymdeithasol / troseddau casineb troseddau yn ymwneud gyda mân droseddu
- Amodau iechyd anodd eu rhagweld/ cronig
- Camddefnyddio sylweddau / hunan-niweidio sylweddol
- Rhwydwaith yn cyflwyno ffactorau risg uchel
- Amgylchedd yn cyflwyno ffactorau risg uchel
- Hanes o ffordd o fyw cythryblus; problemau'n camddefnyddio sylweddau
- Nid oes unrhyw reolaeth gan yr unigolyn dros agweddau hanfodol o'i fywyd, yr hyn sydd o'i gwmpas neu'i faterion ariannol.

**Esgeulustod a Gweithredoedd o Hepgor**

Mae esgeulustod yn cynnwys anwybyddu anghenion gofal meddygol, emosiynol neu gorfforol, methu darparu mynediad at wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg sy'n briodol, ac atal yr hanfodion mewn bywyd fel meddyginiaeth, maetheg ddigonol a gwres i gadw'n gynnes.

Mae esgeuluso hefyd yn medru cynnwys methiant i ymyrryd mewn sefyllfaoedd sydd yn beryglus i'r person neu i eraill, yn enwedig pan nad yw'r galluedd meddyliol gan y person i asesu'r risg dros ei hun.

Mae esgeulustod a phractis proffesiynol gwael yn medru digwydd o dro i dro neu'n rhan o rywbeth mwy cyffredin a chamymddwyn difrifol. Mae esgeulustod o'r math hwn yn medru digwydd o fewn unrhyw sefydliad neu leoliad gofal penodol fel ysbyty neu gartref gofal, neu lle y mae gofal yn cael ei ddarparu yng nghartref yr oedolyn.

Mae achosion niferus o ofal gwael yn medru dynodi problemau mwy difrifol. Mae esgeuluso yn medru bod yn fwriadol neu'n anfwriadol.

**Arwyddion posib:**

- Nid oes gwres a/neu olau digonol gan yr oedolyn.
- Mae cyflwr/ymddangosiad yr oedolyn yn wael (e.e. briwiau, briwiau pwyso, dillad wedi gwlychu neu'n wlyb).
- Nid yw'r oedolyn yn derbyn digon o fwyd maethlon a'n colli pwysau yn sydyn neu'n barhaus a/neu'n sychedig.
- Nid yw'r oedolyn yn derbyn meddyginiaeth neu ofal meddygol priodol.
- Nid yw'r oedolyn yn derbyn preifatrwydd neu urddas.
- Mae oedolyn a/neu ofalwr wedi bod yn anghyson neu'n amharod i gysylltu gyda'r gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
- Nid yw'r sawl sydd yn galw/ymweld yn cael mynediad at y person.
- Mae'r oedolyn wynebu lefel annerbyniol o risg.

**Niwed Cronnol**

Mae niwed cronnol yn ganlyniad i sawl achos o esgeulustod neu bractis gwael. Mae niwed cronnol yn cyfeirio at effeithiau patrymau o amgylchiadau ym mywyd y person sydd yn effeithio'n adweithiol ar ymdeimlad o ddiogelwch, sicrwydd a lles (Bromfield a Millar 2007).

Mae oedolyn sydd yn wynebu risg o bosib yn profi un digwyddiad o niwed neu nifer o ddigwyddiadau rhyngberthnasol sydd yn cael eu cyfyngu i amser penodol. Ystyriaethau eraill a ddefnyddir er mwyn gwahaniaethu rhwng practis gwael a cham-drin yw patrymau o bryder, er enghraifft, nifer o gamgymeriadau gyda'r feddyginiaeth neu os yw galwadau gofal wedi eu colli. Ar wahân i'w gilydd, nid yw'r digwyddiadau yma o reidrwydd yn gam-drin, ond mae patrwm o gamgymeriadau parhaus yn medru nodi pryder bod unigolyn yn cael ei esgeuluso. Mae'n bwysig hefyd ystyried unrhyw bryderon ehangach, er enghraifft, unrhyw drigolion neu ddefnyddwyr gwasanaeth sydd yn profi problemau parhaus gydag ansawdd y gofal.

Pan eu bod yn cael eu hystyried yn unigol, nid yw pob achos o bractis gwael a/neu esgeulustod yn cael eu hystyried fel rhywbeth sy'n cael effaith adweithiol. Fodd bynnag, gyda'i gilydd, mae'r effaith ddyddiol yn medru bod yn sylweddol ac yn ymdrin gyda phob agwedd o fywyd y person mewn cyd-destun datblygol, cymdeithasol, seicolegol, perthnasol ac addysgol.

Mae angen ystyried y pum peth canlynol pan yn asesu am esgeulustod cronnol yn sgil practis gwael neu ansawdd y gofal:

- Amlder: Nifer y digwyddiadau
- Math: Nifer o fathau o bractis gwael
- Difrifoldeb: Effaith ar yr unigolyn
- Ffynhonnell y niwed: Nifer y ffynonellau niwed
- Hyd: Cyfnod o amser pan ddigwyddodd y practis gwael

**Esgeulustod proffesiynol**

Mae'r sawl sydd yn cam-drin neu esgeuluso oedolion yn aml yn bobl y mae eraill yn ymddiried ynddynt ac yn dibynnu arnynt. Mae esgeulustod proffesiynol yn cynnwys practis gofal gwael o fewn sefydliad, lleoliad gofal penodol neu gartref y person neu o fewn y gymuned. Mae hyn yn medru amrywio o ddigwyddiadau un-tro i gamdriniaeth barhaus. Mae esgeulustod proffesiynol yn medru digwydd o ganlyniad i bractis unigol neu o ganlyniad i strwythurau, polisïau a phrosesau a'r practis a geir o fewn mudiad.

**Esgeulustod Teuluol**

Mae esgeulustod o fewn teulu yn cynnwys yr un ystod o gamdriniaeth ond fel arfer, aelod teulu sydd yn gyfrifol am hyn. Mae'n bwysig i fod yn ymwybodol fod unrhyw un yn y teulu yn medru bod yn gyfrifol am gam-drin neu esgeulustod.

**Practis Gwael yn erbyn Esgeulustod**

Wrth ystyried a oes yna achos o esgeulustod, mae'n bwysig pennu a yw'r sefyllfa i'w phriodoli i un o bractis gwael a ph'un ai bod hyn yn cyfiawnhau math arall o ymateb, er enghraifft, drwy dimau comisiynu'r awdurdod lleol yn hytrach na diogelu, a bod modd mynd i'r afael gyda hyn drwy gyfrwng mwy o fonitro, hyfforddi a rheolaeth briodol o ymateb/ymyrraeth goruchwylio. Un ffordd o wahaniaethu rhwng esgeulustod a phractis gwael yw ystyried a yw'r mater yn rhywbeth un-tro neu'n digwydd drwy'r amser. Byddai practis gwael felly yn cynrychioli 'digwyddiad un-tro' a byddai esgeulustod yn rhywbeth sydd yn digwydd drwy'r amser neu mae'r gwasanaeth neu'r ddarpariaeth gofal yn methu neu'n amharod ei atal. Un ffordd arall o wahaniaethu rhyngddynt yw ystyried a oes rhywun wedi ei niweidio. Efallai bod y person sydd yn gyfrifol am sgrinio'r adroddiad yn teimlo nad yw'r unigolyn wedi ei niweidio ond yn cynrychioli 'near miss' ac os yw'r gwasanaeth neu'r darparwr gofal wedi cydnabod bod rhywbeth wedi mynd o'i le a sut i gywiro hyn, gallai hyn fod yn achos o bractis gwael. Fodd bynnag, mae Tîm Diogelu Oedolion yr awdurdod lleol dal yn teimlo bod hyn yn cyfiawnhau eu cynnwys o dan y meini prawf 'yn wynebu risg', ac felly, dylai fod yn seiliedig ar grebwyll proffesiynol y mater o dan ystyriaeth.

Mae llawer o esgeulustod yn rhywbeth na sydd yn droseddol. Mae'r llinell rhwng practis truenus ac esgeuluso yn aml yn anodd ei gadarnhau, ac felly, mae'r canllawiau trothwy ar gyfer DLM er mwyn hyrwyddo practis diogelu cyson wedi ei ddatblygu ac mae i'w weld yn y ddogfen hon – mae enghreifftiau o hyn yn Friwiau Pwyso.

**Materion Briwiau Pwyso a Hyfywedd Meinwe**

Mae’n medru bod yn anodd iawn i adnabod niwed o ran pwysau, ac mae’n ddefnyddiol i ddeall y gwahaniaeth rhwng briwiau pwyso a hyfywedd meinwe. Mae modd cael eich effeithio mewn lleoliad gofal iechyd neu leoliad arall. Os yw hyn yn digwydd mewn lleoliad cyffredinol fel cartref teuluol, dylid ystyried dealltwriaeth yr oedolion unigol sydd yn datblygu anghenion gofal ac unrhyw ymyriadau sydd angen. Efallai bod angen cymryd camau er mwyn cefnogi’r oedolyn unigol ac efallai nad yw hyn yn gyfystyr ag esgeuluso. Mewn lleoliad gofal cymdeithasol fel Cartref Gofal a/neu yn y gymuned, dylid gofyn am asesiad gan weithiwr proffesiynol meddygol neu dylid ystyried Dyletswydd i Adrodd.

Mae Briw Pwyso yn cael ei ddiffinio fel: “A pressure ulcer is localized injury to the skin and/or underlying tissue usually over a bony prominence, as a result of pressure or pressure in combination with shear. A number of contributing or confounding factors are also associated with pressure ulcers; the significance of these factors is yet to be elucidated.” (NPUAP/EPUAP/PPPIA, 2014).

Mae Hyfywedd Meinwe yn cael ei ddiffinio fel: “Moisture lesions, moisture ulcers, perineal dermatitis, diaper dermatitis and incontinence associated dermatitis (IAD) all refer to skin damage caused by excessive moisture by urine and/or faeces being in continuous contact with intact skin of the perineum, buttocks, groins, inner thighs, natal cleft.” (Ousey et al, 2012) “Moisture lesions may develop slough if infection present.” (www.pressureulcer.scot).

Dylid cynnal asesiad meddygol/nyrsio er mwyn cadarnhau a yw’r difrod pwysau yn rhywbeth yr oedd modd ei osgoi ai peidio.

**Esgeulustod Bwriadol**

Mae **esgeulustod bwriadol** yn cael ei ddiffinio fel ‘gwneud rhywbeth bwriadol sydd yn anghywir, gan wybod fod hyn yn anghywir, heb boeni dim a yw’n anghywir ai peidio’.

Mae esgeulustod bwriadol yn cael ei ddiffinio yn Adran 1 o’r Ddeddf Plant a Pherson Ifanc 1933 a’r achos, R v Shepard 1980: ‘A parent cannot be guilty of wilful neglect unless he consciously allowed the neglect or was reckless i.e., did not care if the child was neglected or not’. Mae’r egwyddorion yma yn cael eu hail-adrodd ym maes diogelu plant.

**Esgeulustod Anfwriadol**

Mae hyn yn cynnwys gofalwr yn methu ymgymryd â’u rôl gofalu neu gyfrifoldebau yn sgil dealltwriaeth neu wybodaeth annigonol neu ddealltwriaeth o’r angen am wasanaethau. Un o’r ystyriaethau allweddol gydag ymyriadau o ran esgeuluso yw’r gwahaniaeth rhwng practis gwael, materion ansawdd gofal a cham-drin. Yn yr achosion hyn, mae barn ac effaith ar oedolion bregus yn ystyriaethau allweddol.

**Esgeulustod Sefydliadol**

Mae esgeulustod yn medru digwydd mewn sefydliadau yn sgil y cyfundrefnau, arferion, practis a'r ymddygiad sydd i'w weld yn y gwasanaeth e.e. cartrefi gofal, ysbytai, gwasanaethau cymunedol. Efallai bod hyn yn rhan o ddiwylliant y gwasanaeth ac mae staff yn gyfarwydd gyda hyn. Efallai bod y pethau yma yn digwydd heb fod staff yn gwneud unrhyw sylwadau amdanynt. Efallai bod y pethau hyn yn ymddangos yn bethau bach, dibwys, ond gyda'i gilydd, maent yn creu diwylliant sydd yn gwadu, cyfyngu neu'n crebachu urddas, preifatrwydd, dewis, annibyniaeth neu fywyd yr oedolion bregus. Efallai bod hyn yn medru amrywio o ddigwyddiadau un-tro i gamdriniaeth barhaus. Mae'n medru cael ei briodoli i esgeulustod neu bractis proffesiynol gwael yn sgil y strwythur, prosesau a phractis o fewn mudiad.

Dylai pryderon systemig a sefydliadol fel practis gwael a safonau isel o ofal, p'un ai eu bod yn cwrdd â'r trothwy am ddiogelu oedolion ai peidio, gael eu hatgyfeirio a'u rheoli o dan y canllaw Pryderon Sy'n Cael Eu Huwchgyfeirio a thrwy Gomisiynu ac archwilio sicrwydd ansawdd.

**Hunan-esgeuluso**

Nid oes yna ddiffiniad gweithredol sydd wedi ei dderbyn o hunan-esgeuluso, boed yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, a hynny yn sgil natur deinamig a chymhleth hunan-esgeuluso.

Mae Gibbons et al (2006) yn cael ei ddiffinio fel "the inability (intentionally or non-intentionally) to maintain a socially and culturally acceptable standard of self-care with the potential for serious consequences to the health and well-being of those who self-neglect and perhaps too to their community".

Mae'r canllaw canlynol yn ceisio atal anaf difrifol neu hyd yn oed marwolaeth unigolion sydd yn hunan-esgeuluso drwy sicrhau bod:

- Mae unigolion yn cael eu hymrymuso cymaint ag sydd yn bosib, er mwyn deall goblygiadau eu gweithredoedd.
- Mae yna ddealltwriaeth a rennir, aml-asiantaeth a chydnabyddiaeth o'r materion.
- Mae yna weithio a phractis aml-asiantaeth effeithiol
- Mae pryderon yn derbyn blaenoriaethu priodol
- Mae asiantaethau a mudiadau yn ymgymryd â'u dyletswyddau gofal
- Mae yna ymateb cymesur i'r lefel o risg i'r person ac eraill.

Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy:

- Hyrwyddo dull o weithio sy'n canoli ar y person a'n cefnogi hawl yr unigolyn i gael ei drin gyda pharch ac urddas ac mewn rheolaeth, cymaint ag sydd yn bosib, i fyw bywyd annibynnol.
- Hwyluso cydnabyddiaeth o sefyllfaoedd o hunan-esgeuluso.
- Gwybodaeth well o'r pwerau gwahanol a'r dyletswyddau sydd yn cael eu darparu gan ddeddfwriaeth a'u perthnasedd i'r sefyllfa ac anghenion yr unigolion, ac mae hyn yn cynnwys natur a chyfyngiadau 'dyletswydd gofal' y gweithwyr proffesiynol.
- Hyrwyddo cydymffurfiaeth gyda safon resymol o ofal tra'n ymgymryd gyda'r dyletswyddau sydd eu hangen fel rhan o rôl broffesiynol, er mwyn osgoi unrhyw niwed.
- Hyrwyddo dull cymesur tuag at asesu a rheoli risg.
- Egluro'r cyfrifoldebau asiantaethau ac ymarferwyr gwahanol, ac wrth wneud hyn, yn hyrwyddo tryloywder, atebolrwydd, tystiolaeth o'r broses o wneud penderfyniadau, y gweithredoedd sydd wedi eu cymryd, y camau sydd wedi eu cymryd a'n hyrwyddo lefel briodol o ymyrraeth drwy ddull aml-asiantaeth.

**Egwyddorion Allweddol**

- **Ymrymuso –** Penderfyniadau sydd yn cael eu harwain gan bobl a chaniatâd gwybodus.
- **Amddiffyn -** Cymorth a chynrychiolaeth ar gyfer y bobl sydd â'r anghenion mwyaf.
- **Ataliaeth** – Mae'n well gweithredu cyn bod unrhyw niwed.
- **Cymesuredd –** Ymateb cymesur sydd yn fwyaf priodol i'r risg.
- **Partneriaeth –** Datrysiadau lleol drwy asiantaethau sydd yn gweithio gyda'u cymunedau. Mae rôl gan gymunedau i'w chwarae yn atal, canfod ac adrodd achosion o esgeulustod a cham-drin.
- **Atebolrwydd –** Atebolrwydd a thryloywder yn darparu diogelu.

**Ymrymuso Unigolion**

Mae adeiladu perthynas bositif ag unigolion sydd yn hunan-esgeuluso yn hanfodol er mwyn sicrhau newid ar eu rhan, ac yn sicrhau eu bod yn ddiogel a'n cael eu hamddiffyn.

Dylid rhoi ystyriaeth yn gynnar iawn er mwyn cadarnhau a oes gan yr unigolyn y galluedd meddyliol i ddeall gan wneud penderfyniadau gwybodus i ymateb o bryderon asiantaethau am eu hymddygiad sy'n hunan-esgeuluso.

Mae hunan-esgeuluso yn medru cael ei ystyried fel person sydd yn methu neu'n amharod i ymgymryd â thasgau hanfodol er mwyn gofalu am eu hunain a'r amgylchedd lle y maent yn byw. Mae'n medru cynnwys ymddygiad a ffyrdd o fyw

sydd yn gwrthdaro gydag arferion cymdeithasol a gwerthoedd, agweddau a chredoau pobl eraill.

Mae hunan-esgeuluso yn medru cael ei achosi gan ddirywiad mewn sgiliau, gydag ymddygiad a fu unwaith yn adeiladol nawr wedi dod yn broblematig (e.e. storio llawer iawn o diniau bwyd er mwyn diogelu rhag prinder bwyd), gwerthoedd personol (credu mewn bod yn hunangynhaliol, hunan-barch, gwrthod ymddiried yn y gweithwyr proffesiynol) neu’n casglu llawer iawn o bethau er mwyn ceisio cadw cysylltiad gyda phobl neu ddigwyddiadau o’r gorffennol. Mae yna dystiolaeth i awgrymu bod y risg o hunan-esgeuluso yn cynyddu wrth i rwydweithiau cymdeithasol grebachu ac yn sgil caledi ariannol.

Mae SCIE (Social Carer institute for Excellence) yn darparu rhai arwyddion o hunan-esgeuluso:

- Hylendid personol gwael iawn.
- Yn ymddangos yn flêr.
- Diffyg bwyd, dillad neu lety.
- Diffyg maeth a/neu heb gael digon o hylif.
- Yn byw mewn amodau brwnt ac aflan.
- Yn anwybyddu cyflwr y tŷ.
- Yn casglu llawer iawn, iawn o bethau.
- Yn casglu nifer uchel o anifeiliaid mewn amodau amhriodol
- Methu cydymffurfio gyda gwasanaethau iechyd neu ofal
- Methu neu’n amharod cymryd meddyginiaeth neu drin salwch neu anaf.

Mae hunan-esgeuluso yn medru cyflwyno heriau gan ei fod yn medru arwain at wrthdaro rhwng y gwerthoedd proffesiynol craidd o hunan-benderfynu a dyletswydd gofal. At hyn, mae hawliau unigolyn yn medru gwrthdaro yn uniongyrchol hawliau’r gymuned ehangach lle y mae esgeuluso eu hawyrgylch cartref yn medru bod yn risg i eraill.

Mae hyn yn cynnwys anwybyddu anghenion gofal meddygol, emosiynol neu gorfforol, a methu rhoi mynediad i wasanaethau iechyd, gofal a chymorth neu addysg, a’n gwrthod defnyddio hanfodion bywyd fel meddyginiaeth, maetheg digonol a gwres (Worcester.gov.uk)

Mae SCIE (Social Carer institute for Excellence) yn darparu esiamplau pellach o hunan-esgeuluso:

- Diffyg hunanofal i’r graddau y mae’n bygwth iechyd personol a diogelwch.
- Esgeuluso gofal ar gyfer hylendid, iechyd neu’r hyn sydd o’u cwmpas.
- Methu osgoi hunan-niweidio.
- Methu chwilio am help neu’n diwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol.
- Anallu neu amharodrwydd i reoli materion personol.

**Eiriolaeth**

Dylid ystyried cynnwys eiriolydd annibynnol neu Eiriolydd Galluedd Meddyliol annibynnol mewn amgylchiadau priodol. Os yw'r unigolyn yn gwrthod cymryd rhan neu ymgysylltu ag asiantaethau neu'n gwrthod rhoi mynediad, efallai bod gwybodaeth gan ystod eang o ffynonellau eraill yn medru helpu sicrhau llwyddiant neu gadarnhau'r meysydd / lefelau o risgiau.

**Mae ymateb cychwynnol amserol yn hanfodol**

Bydd asiantaethau yn cofnodi'n ffurfiol (yn ddelfrydol o fewn 24 awr) bod y gweithdrefnau yma yn cael eu gweithredu.

**Adnabod unigolyn sydd yn hunan-esgeuluso**

Mae unigolyn yn hunan-esgeuluso ac yn risg iddo'i hun ac eraill os nad yw'n elwa o'r cymorth.

Efallai bod nifer o fudiadau yn ymwybodol o'r unigolyn ac yn ystyried bod y risg wedi cyrraedd pwynt sylweddol.

**Ymgysylltu ag Asiantaethau Eraill**

Dylai'r hyn sydd yn codi pryderon gynnwys:

Cymryd unrhyw gamau er mwyn delio ag unrhyw berygl brys os yw hyn yn ymarferol.

Trefnu cyfarfod dros y ffôn neu drafodaeth gychwynnol gyda'r asiantaethau priodol eraill er mwyn cytuno pwy fydd yn arwain cydlynu'r gwaith o gasglu gwybodaeth ac mae hyn yn hynod berthnasol os yw pryderon wedi eu codi gan Wardeniaid Cymunedol neu Iechyd Amgylcheddol.

Os yw'r unigolyn sydd yn codi'r pryder yn credu fod y person angen gofal/neu gymorth, dylid ymgynghori gyda'r awdurdod lleol gan y byddant angen cadarnhau o'r wybodaeth sydd ar gael os oes angen gwneud ymholiadau o dan adran 126 (2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Os felly, mae'n debygol mai'r awdurdod lleol fydd yr asiantaeth sydd yn arwain.

**Asiantaeth arweiniol yn cydlynu'r wybodaeth ac yn casglu ac yn cadarnhau'r camau mwyaf priodol i fynd i'r afael gyda'r pryderon**

Dylid rhannu gwybodaeth fel rhan o'r gweithdrefnau yma mewn modd sydd yn gyson gyda'r egwyddor o rannu gwybodaeth fel sydd wedi ei nodi yng nghanllaw WASP. Mae gwybodaeth wedi ei chaglu ar y cam hwn er mwyn:

Gwneud penderfyniadau ynglŷn ag a oes angen rhannu mwy o wybodaeth aml-asiantaeth.

Cwblhau Asesiad Risg cychwynnol a’n sicrhau bod unrhyw **gamau gweithredu** yn cael eu cwblhau ar frys e.e. cysylltu gyda’r gwasanaethau brys, Gwasanaeth Tân ac Argyfwng Gogledd Cymru, cwblhau gwiriadau diogelwch a’n chwilio am ymyrraeth feddygol brys os oes angen.

Os oes yna bryderon fod gallu'r unigolyn i wneud penderfyniad cyhoeddus yn sgil anhwylder meddyliol neu afiechyd meddwl, dylid rhoi ystyriaeth i gynnal Asesiad o’r Galluedd Meddyliol o ran unrhyw benderfyniadau sydd angen iddynt wneud o ran eu diogelwch eu hunain neu eraill.

Bydd casglu gwybodaeth yn ceisio adeiladu dealltwriaeth o:

- Unrhyw ymgysylltu blaenorol llwyddiannus gyda’r unigolyn
- Dulliau o waith sy’n golygu nad yw’r unigolyn yn ymgysylltu
- Ciplun o ddymuniadau a theimladau'r unigolyn
- Barn unrhyw un sydd wedi neu’n dod i gysylltiad gyda’r unigolyn gan gynnwys perthnasau a chymdogion.

Wrth weithio gydag unigolyn sydd yn amharod i gyfathrebu, mae’r risg o gam-gyfathrebu rhwng asiantaethau yn fwy nag arfer. Mae’n bwysig sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael i’r sawl sydd yn cynnal unrhyw asesiadau.

Defnyddiwch y wybodaeth sydd ar gael ac unrhyw ddulliau llwyddiannus o ymgysylltu’n llwyddiannus gyda’r unigolyn er mwyn hwyluso cyfathrebu uniongyrchol gyda’r unigolyn os yn bosib. Dylai hyn sicrhau bod yr asesiad yn llywio unrhyw gamau gweithredu sydd i’w cymryd ac yn cynnwys dymuniadau a theimladau’r unigolyn.

**Taro cydbwysedd rhwng hawliau’r unigolyn a dyletswyddau a chyfrifoldebau’r asiantaethau**

Mae hawl gan unigolion i gymryd risgiau a byw eu bywydau fel y mynnant. Mae’r hawliau yn cynnwys yr hawl i breifatrwydd a bydd hyn yn cael ei barchu a’i ystyried pan fyddwn yn ystyried dyletswyddau a chyfrifoldebau.  Ni fyddwn yn tramgwyddo’r rhain:

- Ac eithrio lle y mae’n glir y bydda’r canlyniad yn cael effaith ddifäol ar iechyd a lles y person, neu unrhyw bob arall, a’i fod yn gyfreithlon i wneud hyn.

**Asiantaethau/mudiadau sy’n ymgysylltu gyda’r broses**

Mae’n glir na fydd yr unigolion yma yn cwrdd â’r meini prawf ar gyfer unrhyw un neu nifer o’r asiantaethau neu fudiadau yma. Mae profiad blaenorol o geisio ymgysylltu ond wedi cael ychydig o effaith neu dim llwyddiant o gwbl. Mae’r ffactorau yma yn

cynyddu'r risgiau a dylid nodi hyn fel arwyddion risg sydd yn sbarduno camau gweithredu o dan y gweithdrefnau hunan-esgeuluso.

Mae gwaith hunan-esgeuluso wedi ei gytuno fel blaenoriaeth aml-asiantaeth ac mae yna ddisgwyliad bod:

- Yr holl asiantaethau partner yn ymgysylltu pan fydd yna gais gan yr asiantaeth arweiniol fel sydd yn briodol neu sydd ei angen; a

- Os yw asiantaeth yn asiantaeth arweiniol, maent yn cymryd cyfrifoldeb ar gyfer cydlynu'r gwaith o asiantaethau yn gweithio mewn partneriaeth.

**Ystyriwch y weithred briodol er mwyn ymateb i'r risg**

Efallai y bydd yna achlysuron pan fydd hi'n briodol i ddilyn gweithdrefn arall er mwyn cydlynu rhai neu'r holl agweddau sydd wedi eu nodi.

Os oes yna farc cwestiwn ar gyfer gallu unigolyn i wneud penderfyniadau gwybodus / perthnasol, rhaid dilyn egwyddorion y **Ddeddf Galluedd Meddyliol.** Os yw'n ymddangos bod y person o bosib yn sâl, rhaid dilyn y prosesau sydd yn y **Ddeddf Iechyd Meddwl.**

Os yw'r hunan-esgeuluso wedi dod yn amlwg yn sgil cam-drin gan eraill, dylid defnyddio polisi diogelu oedolion, protocolau a chanllawiau. Os oes yna bryderon am ddiogelu plant neu blant mewn angen, rhaid cyfeirio'r rhain at wasanaethau plant fel mater o frys.

Os oes prosesau eraill yn cael eu hystyried yn fwy priodol i'w defnyddio er mwyn cefnogi'r unigolyn, efallai y bydd y gweithdrefnau hunan-esgeuluso yn dod i ben ar y pwynt hwn a'r holl gyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i'r ymarferydd/gwasanaeth er mwyn mynd i'r afael gyda hunan-esgeuluso ynghyd ag unrhyw bryderon eraill. Rhaid bod yna ddogfennaeth glir er mwyn cynnig tystiolaeth o'r cyfrifoldebau os yw hyn yn digwydd,

Yn ddibynnol ar lefel a natur y risgiau sydd wedi eu hadnabod, efallai bod angen rhoi ystyriaeth i'r gwaith a wneir gan yr asiantaethau ac ymarferwyr eraill ar y cyd gyda'r gweithdrefnau hunan-esgeuluso. Rhaid bod yna gytundeb eglur ar bwy sydd yn arwain y gwaith o gydlynu a dwyn yr asiantaethau/gwasanaethau ynghyd gyda'r unigolyn neu'r eiriolydd er mwyn cytuno ar gynllun gweithredu.

**Asesiadau cynhwysfawr gan gynnwys risgiau i'w hystyried yn y cyfarfod aml-asiantaeth:**

Dylid cwblhau asesiad gan ddefnyddio'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd gan yr asiantaeth sydd yn arwain gyda'r asiantaethau eraill yn arwain a'r gwasanaethau fel sydd yn briodol i ffurfio un asesiad cynhwysfawr o'r unigolyn a'r risgiau sydd wedi eu nodi.

Efallai bod angen mewnbwn arbenigol er mwyn egluro agweddau penodol o ymddygiad yr unigolyn a'r risgiau. Bydd hyn cynnwys asesiad iechyd meddwl neu alluedd meddyliol os yw hyn yn ymddangos yn briodol.

Bydd elfennau allweddol o'r asesiad cynhwysfawr o esgeulustod yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- **a.** Hanes cymdeithasol a meddygol manwl.
- **b.** Gweithgareddau hanfodol o fywyd bob dydd (e.e. y gallu i ddefnyddio'r ffôn, siopa, paratoi bwyd, gofalu am y tŷ, golch dillad, cludiant a ddefnyddir, cyfrifoldeb am feddyginiaeth y gallu i ddelio gyda materion ariannol).
- **c.** Asesiad amgylcheddol; yn cynnwys unrhyw wybodaeth gan gymdogion.
- **d.** Disgrifiad o hunan-esgeuluso.
- **e.** Persbectif hanesyddol o'r sefyllfa.
- **f.** Naratif yr unigolyn ei hun am ei sefyllfa ac anghenion.
- **g.** Parodrwydd yr unigolyn i dderbyn cymorth; a
- **h.** Barn aelodau'r teulu, gweithwyr iechyd proffesiynol a phobl eraill yn rhwydwaith yr unigolyn.

**Bydd cyfarfod aml-asiantaeth yn cael ei drefnu o dan y gweithdrefnau hunan-esgeuluso.**

Os oes amheuaeth bod oedolyn yn hunan-esgeuluso o bosib, yn gwrthod unrhyw gefnogaeth ac o'r herwydd yn gosod hwy eu hunain neu eraill mewn peryg o niwed sylweddol, rydym yn argymell cynnal cyfarfod aml-asiantaeth. Bydd hyn yn caniatáu rhannu gwybodaeth er mwyn ystyried y risg(iau) o beidio ag ymyrryd a chaniatáu bod modd cytuno ar gynllun gweithredu. Dylid cynnal cyfarfod cynllunio aml-asiantaeth, gydag agenda clir ar gyfer y drafodaeth, o fewn pum diwrnod ar ôl codi'r pryderon cychwynnol.

**Y rhesymau am drefnu cyfarfod:**

- Nid yw'r gwaith a wnaed wedi lleihau'r lefel o risg ac mae risgiau sylweddol yn parhau.

- Nid yw wedi bod yn bosib i gydlynu dull aml-asiantaeth o weithio yn y gwaith a wneir hyd yma.

- Mae lefel y risg yn golygu bod angen rhannu gwybodaeth yn ffurfiol a chytuno ar gynllun gweithredu aml-asiantaeth

Mae'r amserlen ar gyfer cyflawni'r amcanion sydd wedi eu gosod yn y cyfarfod aml-asiantaeth yn mynd i fod yn benodol o fewn y cofnod ysgrifenedig ffurfiol o'r cyfarfod. Bydd hyn yn cynnwys amserlenni ar gyfer cwblhau unrhyw gamau gweithredu neu asesiadau arbenigol.

Bydd angen gosod dyddiad ar gyfer cyfarfod adolygu fel bod unrhyw asesiadau arbenigol pellach yn medru cael eu hystyried ac unrhyw gamau gweithredu diwygiedig yn cael eu cytuno.

**Egwyddorion ar gyfer trefnu cyfarfod aml-asiantaeth:**

**Yr egwyddorion i'w hystyried ar gyfer trefnu cyfarfod aml-asiantaeth:**

- Barn a dymuniadau'r unigolyn.
- Gwybodaeth, camau gweithredu a risgiau cyfredol.
- Y gweithiwr proffesiynol/asiantaeth arweiniol a fydd yn cydlynu'r gwaith hwn
- Cydlynu'r gwaith o rannu gwybodaeth -yn unol ag egwyddorion diogelu oedolion fel sydd wedi ei gynnwys yn y protocolau polisi diogelu oedolion aml-asiantaeth a'r canllaw ar gyfer Gogledd Cymru
- Gwerthuso'r wybodaeth berthnasol er mwyn llywio'r cynllun gweithredu mwyaf effeithiol.

**Canllaw ar gyfer cyfarfod cynllunio aml-asiantaeth:**

Yr asiantaeth arweiniol sydd yn gyfrifol am drefnu'r cyfarfod hwn a'n gwneud trefniadau fel cadarnhau'r lleoliad a chymryd y cofnodion.

Bydd yr asiantaeth sydd yn arwain yn gwneud trefniadau er mwyn cynnwys yr unigolyn dan sylw. Os yn bosib, dylai'r unigolyn chwarae rhan lawn a mynychu'r cyfarfod. Dylid gwneud pob ymdrech i ymgysylltu gyda'r unigolyn er mwyn eu caniatáu i rannu eu barn yn y cyfarfod.

Os nad yw'r unigolyn yn mynychu'r cyfarfod, bydd cynrychiolwyr angen ystyried sut i gyflwyno barn a dyheadau'r unigolyn yn y cyfarfod e.e. drwy apwyntio eiriolwr ffurfiol neu drwy wahodd eiriolwr anffurfiol.

Caiff ei argymell bod y cyfarfod yn cael ei gadeirio a'i recordio. Bydd unigolion o'r holl asiantaethau yn mynychu'r cyfarfod gan ddeall eu cyfrifoldebau i rannu gwybodaeth berthnasol er mwyn cyrraedd cytundeb ar y ffordd ymlaen.

Mae'n bwysig bod unrhyw gamau gweithredu yn cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth a'r dyletswyddau statudol. Efallai bod angen ystyried cynrychiolaeth gyfreithiol yn y cyfarfod er mwyn trafod opsiynau cyfreithiol priodol.

Dylid datblygu cynllun gweithredu SMART a dylai'r aelodau gytuno ar hyn yn y cyfarfod. Os ceir unrhyw anghytundeb am unrhyw agwedd o'r cynllun dylid datrys y rhain drwy ymgynghori ag uwch reolwr o'r asiantaeth arweiniol.

Bydd Cadeirydd y cyfarfod aml-asiantaeth yn sicrhau bod yna eglurder o ran yr amserlenni ar gyfer gweithredu'r cynlluniau gweithredu, fel bod yna ddatrysiadau cyfreithiol a phroffesiynol, bod modd ymateb i'r risg a bod niwed yn cael ei leihau/atal.

**Bydd canlyniadau'r cyfarfod yn cynnwys y canlynol:**

- Cynllun gweithredu SMART– gan gynnwys cynlluniau wrth gefn a phroses ar gyfer uwchgyfeirio.
- Cytuno ar drefniadau monitro ac adolygu a phwy fydd yn gwneud hyn.
- Cytuno ar gynllun cyfathrebu gyda'r unigolyn/pobl allweddol arall sy'n rhan o hyn.
- Cytuno ar ba asiantaeth sydd yn mynd i arwain yr achos; a
- Cytuno ar bwyntiau a fydd yn sbarduno er mwyn pennu'r angen am gyfarfod adolygu aml-asiantaeth

Dylid danfon nodyn ysgrifenedig priodol at yr unigolyn dan sylw, nid oes ots pa rôl y maent wedi chwarae hyd yma. Bydd y cyfathrebu yn cynnwys amlinellu pa gefnogaeth sydd yn cael ei gynnig a / neu'n cynnig esboniad am hyn. Os yw'r

gefnogaeth yn dirywio, mae'n bwysig bod yr unigolyn yn ymwybodol, os ydynt yn newid eu meddwl am y cymorth a'n medru cysylltu gyda'r asiantaeth berthnasol ar unrhyw adeg yn y dyfodol, bydd hyn yn sbarduno ailasesiad. Bydd angen ystyriaeth ofalus yn ynglŷn â sut i gyflwyno'r cofnod ysgrifenedig yma, ac os yn bosib, i'r unigolyn.

### Gofynion ar gyfer cyfarfod Adolygu Aml-asiantaeth

Mae'r cyfarfod adolygu yn gyfle i fynd yn ôl i'r asesiadau gwreiddiol, yn enwedig o ran ymddygiad yr unigolyn, asesiadau risg a'r cyfraddau gwybyddus a phosib o welliannau neu ddirywiad yn:

- Yr unigolyn,
- Yr amgylchedd neu
- Yng ngalluedd y systemau cymorth.

**Bydd penderfyniadau ar asesiadau galluedd meddyliol** yn cael eu hadolygu a'u rhannu yn y cyfarfod. Bydd trafodaethau angen ffocysu ar gynllunio brys sydd yn seiliedig ar risg(iau) a nodir.

Efallai y bydd yna benderfyniad i barhau i ddarparu cyfleoedd i'r unigolion i dderbyn cymorth a monitro'r sefyllfa. Bydd angen gosod amserlenni eglur er mwyn darparu cyfleoedd ac ar gyfer monitro a chadarnhau pwy fydd yn rhan o hyn.

Os yn bosib, bydd arwyddion bod risgiau yn cynyddu yn cael eu nodi a bydd hyn sbarduno ymatebion a gytunir gan asiantaethau, mudiadau a phobl sydd yn rhan o hyn, a hynny mewn modd rhagweithiol ac amserol.

Bydd dyddiad cyfarfod pellach yn cael ei drefnu ym mhob un adolygiad aml-asiantaeth tan fod yna gytundeb bod y sefyllfa wedi sefydlogi, a bod y risg i niwed wedi lleihau i lefel dderbyniol.

Os yw asiantaethau yn methu cynnig cymorth neu leihau'r risg yn sylweddol, bydd y rhesymau am hyn yn cael eu nodi yn gwbl eglur a'u cadw ar ffeil yr unigolyn, gyda chofnod llawn o'r ymdrechion a'r camau gweithredu sydd wedi eu cymryd.

Os yw'r risgiau yn **uchel iawn**, rhaid gofyn am gyngor cyfreithiol a rhaid ystyried yr holl opsiynau cyfreithiol gan gynnwys gwneud cais i'r Llys Gwarchod os oes yna bryderon am alluedd meddyliol neu'r Uchel Lys os yw'r unigolyn yn meddu ar alluedd meddyliol.

### Cadw cofnodion

Bydd cofnod o'r achos yn cynnwys crynodeb o'r ymdrechion a'r camau gweithredu sydd angen i'r holl asiantaethau eu cymryd. Bydd asiantaethau unigolyn hefyd yn cynnwys cadw eu cofnodion o'r ffordd y maent wedi chwarae rhan.

Bydd cofnodion cywrain yn cael eu cynnal a'n arddangos cydymffurfiaeth gyda'r gweithdrefnau yma, a'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd wedi eu cytuno'n lleol ar gyfer cofnodi achosion.

Ffynonellau:


- SCIE (Social Carer institute for Excellence)
- Western Australia Department of Health (amended from Children's)
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- Awdurdod Lleol Caerwrangon
- Mewn Dwylo Diogel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2000
- www.gwentsafeguarding.org.uk
- Gibbons et al (2006) Self-Neglect: A proposed new NANDA diagnosis, International Journal of Nursing Terminologies and Classifications, 17 (1), pp 10-18.
- SCIE (2011) Self-neglect and adult safeguarding: findings from research (Adroddiad 46) ar gael www.scie.org.uk
- "Sussex Multi-Agency Procedures to Support People who Self Neglect" (July 2013) ar gael o www.westsussex.gov.uk

[Offeryn Adnabod Hunan-esgeuluso ar gyfer Ymarferwyr]

## Diffyg hunan-ofal

**Pryderon cynyddol (ffurfiau o esgeulustod yn achosion unigol neu amrywiol gyda risg gynyddol yn ymwneud gyda'r risg i'r unigolyn**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Methu gofalu am hylendid personol** | • Y dangos afiechyd acíwt, heb olchi ac mewn dillad brwnt | • Heb olchi, dillad brwnt gydag arwyddion bod hyn yn broblem hirdymor – gwallt matiog, ewinedd traed heb eu torri , | • Heb olchi a phroblemau iechyd yn sgil hyn e.e. heigiaid | • A oes yna ddŵr ar gael ar gyfer golchi?<br>• A yw hylendid personol yn golygu ei fod yn wynebu peryg?<br>• A oes unrhyw ran o'r croen neu friwiau wedi heintio? |
| **Anwybyddu diogelwch** | • Gadael y drws heb ei gloi o dro i dro neu'r nwy heb ei ddiffodd | • Anwybyddu os yw'r eiddo yn ddiogel<br>• Cymryd risgiau y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn ystyried yn annerbyniol<br>• Yn caniatáu pobl estron i gael mynediad i'r eiddo/cyllid<br>• Storio sylweddau fflamadwy | • Defnyddio tân agored ar gyfer coginio<br>• Yn anwybyddu arwyddion o salwch – corfforol neu seicolegol – y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn chwilio am help ar ei gyfer | • A yw'n amlwg bod yr eiddo yn anniogel? (Tyllau yn y llawr, gwasanaethau yn cael eu tynnu'n ôl yn sgil y risg i weithwyr?) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Diffyg cydymffurfiaeth gyda gwasanaethau meddygol** | • Methu mynychu apwyntiadau iechyd o dro i dro neu weithwyr iechyd proffesiynol yn methu mynd i mewn i'r eiddo<br>• Anwybyddu arwyddion amlwg o afiechyd a'n methu cydymffurfio gyda thriniaeth | • Methu cydymffurfio gyda chyfundrefnau meddyginiaeth neu rhai eraill na sydd yn bygwth bywyd ond yn medru byrhau bywyd | • Meth chwilio am driniaeth feddygol sydd yn golygu eu bod hwy neu eraill yn wynebu risg<br>• Yn gynyddol gymhleth, gan achosi pryder difrifol ar gyfer iechyd a diogelwch | • A ydynt yn medru rheoli meddyginiaeth hanfodol?<br>• A ydych yn edrych yn sâl neu mewn poen?<br>• A oes yna newid sylweddol wedi bod yn eu hiechyd neu ddigwyddiad bywyd critigol? |
| **Problemau ariannol** | • Methu rheoli cyllideb gan arwain at broblemau o ran cyflenwadau bwyd a hanfodion eraill | • Dyledion amrywiol<br>• Yn caniatáu eraill i gael mynediad amhriodol i'r eiddo/cyllid | • Ychydig neu dim bwyd o gwbl yn y tŷ a'n methu prynu dim byd.<br>• Risg o gael eu datgysylltu/colli gwasanaethau/ gorfod gadael yr eiddo<br>• Dod yn fethdalwr | • A oes digon o fwyd gan y person? (A oes yna fwyd yn y cypyrddau)?<br>• A ydych yn edrych fel bod angen iddynt fagu pwysau? (Dillad yn rhy fawr?)<br>• A ydynt yn rheoli eu harian?<br>• A yw'r cyfleustodau wedi cysylltu?<br>• A ydynt yn medru cadw'n gynnes?<br>• A ydynt yn medru sychu'r dillad a'r dillad gwely? |
| **Anwybyddu'r angen am fwyd maethlon** | • Methu rheoli cyllideb gan arwain at broblemau o ran cyflenwadau bwyd a hanfodion eraill | • Colli pwysau sylweddol (byddai angen selio hyn ar y pwysau corff gwreiddiol ayyb) | • Diffyg maeth | • A oes digon o fwyd gan y person i'w fwyta? A oes digon o fwyd gan y person? A oes yna fwyd yn y cypyrddau? A ydynt yn edrych fel bod angen iddynt fagu pwysau? (Dillad yn rhy fawr?)<br>• A oes yna gyfleusterau er mwyn gwneud pryd o fwyd cynnes a diod ac a yw'r cyfleusterau yma yn cael eu defnyddio? |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Casglu pethau** | • Yn casglu llawer iawn o bethau | • Yn casglu cymaint o bethau fel nad oes modd cael mynediad at bethau, risgiau i'r unigolyn, dim trefniadau cysgu priodol | • Yn casglu cymaint o bethau fel bod yna risgiau iechyd neu risgiau tân i eraill | • A ydynt yn medru mynd i'r gwely os ydynt yn dymuno (A oes yna lanast ar y gwely sydd yn atal hyn?)<br>• A oes yna beryglon tân amlwg (A ydynt yn casglu eitemau fflamadwy, yn defnyddio canhwyllau ar gyfer golau, cyfarpar trydan anniogel?)<br>• A yw'r cyfleusterau coginio yn hygyrch a'n ddiogel i'w defnyddio?<br>• A oes modd storio bwyd yn ddiogel (a oes oergell ar gael, rhywbeth i gadw'r bwyd yn ddiogel rhag llygod ayyb)<br>• A oes toiled ar gael a bod modd ei ddefnyddio?<br>• A ydynt yn medru dianc petai tân? |
| **Casglu anifeiliaid** | • Efallai bod gofalu am anifeiliaid wedi dod yn ormod dros dro neu'n achosi pryderon iechyd a diogelwch | • Y nifer a/neu fathau o anifeiliaid yn achosi pryder am iechyd a diogelwch yr unigolyn neu eraill | • Y nifer a/neu fathau o anifeiliaid yn achosi pryder iechyd a diogelwch yr unigolyn neu eraill | • A yw'r anifeiliaid, eu hymddygiad, eu nifer, neu gynefinoedd yn achosi pryder am iechyd a diogelwch yr unigolyn neu eraill ?<br>• A yw'r gost yn golygu bod angen gwario arian ar yr anifeiliaid yn hytrach na phethau hanfodol eraill? |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Bywyd anhrefnus** (nid yw hyn o reidrwydd yn arwydd o hunan-esgeuluso ond yn medru arwain at hunan-esgeuluso | • Achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol neu'n niwsans<br>• Diffyg disgyblaeth wrth ddelio gyda phlant<br>• Amodau byw brwnt ac anniben | • Dyledion niferus<br>• Colli apwyntiadau pwysig<br>• Angen atgyweirio'r tŷ a/neu'r ardd<br>• Gwacau<br>• Digartrefedd<br>• Dim diddordeb mewn gweithgareddau bob dydd | • Yn methu dilyn confensiynau cymdeithasol<br>• Yn ddibynnol ar gyffuriau a/neu alcohol<br>• Problemau difrifol gyda hygrededd yr eiddo | • A oes yna ddigon o gyfleusterau i wneud pryd o fwyd neu ddiod boeth?<br>• A yw'r cyfleustodau wedi cysylltu?<br>• A ydynt yn medru cadw'n gynnes?<br>• A yw'r dillad yn briodol ar gyfer yr oedran?<br>• A ydynt yn medru gofyn am help mewn argyfwng? A ydych wedi eu gweld yn gwneud hyn?<br>• A yw'r eiddo yn amlwg yn anniogel? (Tyllau yn y llawr, gwasanaethau wedi eu tynnu yn ôl yn sgil y risg i weithwyr ?)<br>• A yw'r denantiaeth mewn risg? |

**Trothwyon**

**Adrodd neu ymatal rhag Adrodd**

Y trothwy ar gyfer ymyrraeth broffesiynol mewn sefyllfaoedd o hunan-esgeuluso yw lle bod niwed yn cael ei achosi i berson neu eraill. Dylid ystyried pum maes allweddol pan yn asesu a yw niwed yn cael ei achosi: effaith ar iechyd corfforol, effaith ar les emosiynol, effaith ar weithredu cymdeithasol, yr effaith ar yr amgylchedd a'r effaith ar bobl arall.

Dylid nodi nad yw hunan-esgeuluso yn sbarduno adran 136 (Adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, Pwerau Argyfwng yr Heddlu). Dylid cynnal asesiad fesul achos. Mae penderfyniad ynglŷn ag a oes angen ymateb o dan y faner diogelu yn dibynnu ar allu'r oedolyn i amddiffyn ei hun drwy reoli ei ymddygiad ei hun. Efallai y bydd yna bwynt lle nad ydynt yn medru gwneud hyn, heb gymorth allanol.

Bydd proses ymholiad A136 yn cael ei ddefnyddio wedyn er mwyn goruchwylio'r gwaith o hunan-esgeuluso. Bydd hyn yn darparu:

- dull o weithio sydd yn ffocysu ar y person
- cefnogaeth i weithwyr pan yn gweithio ag achosion cymhleth
- dull o waith a rennir o ran asesiadau risg
- cynnwys asiantaethau eraill; a
- mynediad at adnoddau

Os yw'r tîm aml-asiantaeth yn cytuno nad yw'r cynllun gweithredu wedi bod yn llwyddiannus, bod y peryg yn uchel a bod yr oedolyn wedi methu ymgysylltu gyda'r broses, dylid codi pryder diogelu. Mae cymorth ar gyfer Ymarferwyr sydd yn ystyried gwneud Dyletswydd i Adrodd i'r Tîm Diogelu Oedolion ar gael yma: Adult Safeguarding Guidance To Report or Not To Report

Bydd y Tîm Diogelu Oedolion yn cadarnhau a ddylid rheoli'r sefyllfa fel ymholiad diogelu a'i ddatblygu drwy'r gweithdrefnau diogelu. Mae'r trothwy ar gyfer ymyrraeth Diogelu yn cael ei gefnogi gan y canllaw GWASB *Adult Safeguarding Guidance To Report Or Not To Report* sydd ar gael yma Adult Safeguarding Guidance To Report or Not To Report.Mae modd cynnal asesiad pellach fel rhan o'r ddyletswydd diogelu i gwestiynu a nodi'r cymorth sydd yn cael ei ddarparu gan y cynllun diogelu gofal a chymorth diogelu.

Ni ddylai'r broses effeithio ar hawliau dynol yr unigolyn ond bydd yn sicrhau bod partneriaid yn ymestyn eu dyletswydd i ofalu mewn modd cadarn, cyn belled ag sydd yn rhesymol.

Mae'r her o reoli'r broblem o daro cydbwysedd rhwng diogelu oedolion sydd mewn peryg o hunan-esgeuluso yn erbyn yr hawl iddynt wneud penderfyniadau eu hunain yn her ddifrifol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cymunedol. Dylai gweithredu'r fformiwla yma sicrhau bod camau rhesymol yn cael eu cymryd er mwyn cadw oedolion yn ddiogel, a hynny'n ddelfrydol gan grŵp o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol.

Ffynonellau:


- SCIE (Social Carer institute for Excellence
- Adran iechyd Gorllewin Awstralia (wedi ei ddiwygio o'r fersiwn i blant)
- Gweithdrefnau Diogelu Plant
- Awdurdod Lleol Caerwrangon
- Mewn Dwylo Diogel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gorffennaf 2000
- www.gwentsafegaurding.org.uk
- https://www.rethink.org/advice-and-information/rights-restrictions/mental health-laws/section-136/